

CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL	
PWYLLGOR:	Pwyllgor Safonau
DYDDIAD:	13.03.2019
TEITL YR ADRODDIAD:	Caniatâd Arbennig
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Hysbysu'r Pwyllgor am ganlyniad unrhyw geisiadau am ganiatâd arbennig a dderbyniwyd ers 12 Medi 2018
ADRODDIAD GAN	Mared Wyn Yaxley Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol mwyys@ynysmon.gov.uk
SWYDDOG CYSWLLT:	Lynn Ball Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro lbxcs@ynysmon.gov.uk 01248 752586

1. RHAGARWEINIAD

Os oes gan gynghorydd sir/cynghorydd tref/cymuned ddiddordeb sy'n rhagfarnu mewn mater sy'n cael ei ystyried gan eu hawdurdod, mae'n ofynnol o dan y côd ymddygiad fod y diddordeb yn cael ei ddatgan/gofrestru a bod yr aelod yn gadael y cyfarfod a ddim yn cymryd rhan yn y drafodaeth nac yn dylanwadu ar y penderfyniad(au).

Mae'r côd ymddygiad yn ymgorffori "caniatâd arbennig" o dan rai amgylchiadau cyfyngedig a restrir ym [mharagraff 12\(2\) y côd](#).

Yn ogystal, os nad yw paragraff 12(2) y Côd o gymorth, yna mae gan y Pwyllgor Safonau'r disgresiwn i roi caniatâd arbennig i aelod, o dan amgylchiadau penodol, sy'n cael eu rhestru mewn rheoliadau statudol.

Os yw'n cael ei ganiatáu, mae'r caniatâd arbennig yn goresgyn elfen ragfarnus y diddordeb (hynny yw'r rhagfarn neu'r rhagfarn ymddangosiadol) a bydd yn galluogi'r aelod i gymryd rhan yn y mater; efallai y bydd cyfyngiad ar gyfraniad yr aelod ac fe roddir y caniatâd am gyfnod penodol o amser.

2. CEFNDIR

Er mwyn cynorthwyo aelodau i ddefnyddio'r broses caniatâd arbennig pryd bynnag y bo hynny'n briodol, ac mor effeithiol â phosib, mae'r Pwyllgor Safonau wedi cyhoeddi [Nodyn o Gyngor ac Arweiniad](#). Yn ogystal, rhoddwyd gwybodaeth i glercod cynghorau tref a chymuned am y posibilrwydd o dderbyn caniatâd arbennig mewn e-bost wedi ei ddyddio 6 Mawrth 2017.

Yn aml mae angen caniatâd arbennig ar fyr rybudd, ac o fewn y cyfnod o rybudd cyfreithiol lleiaf posibl, ac oherwydd hynny mae'r Pwyllgor Safonau wedi sefydlu trefn lle y gellir galw ar Banel o dri aelod i ddelio ag unrhyw gais a dderbynnir rhwng cyfarfodydd y Pwyllgor llawn. Gall unrhyw dri aelod annibynnol / Cyngor Sir gynnal gwrandawriad i geisiadau a dderbynnir gan gynghorwyr sir (gyda mwyafrif o aelodau annibynnol) a chynhelir gwrandawriad i geisiadau gan gynghorwyr tref/cymuned gan aelodau annibynnol ac aelodau cyngor tref/cymuned (gyda mwyafrif o aelodau annibynnol).

3. CEISIADAU A DDERBYNIWYD ERS 12 MEDI 2018

3.1 Gwrandawriad y Panel Caniatâd Arbennig ar 28 Ionawr 2019

- 3.1.1 Derbyniodd y Panel gais ysgrifenedig llawn ar 21 Ionawr 2019 mewn perthynas â chais y Cynghorydd Llinos Medi Huws am ganiatâd arbennig ynghylch materion addysg yn cynnwys (a) ysgolion yn ardal Amlwch a (b) y ddarpariaeth Addysg Ôl-16 yn y Sir. Cyfarfu'r panel i glywed gan yr ymgeisydd ac i benderfynu ar y cais ar 28 Ionawr 2019.
- 3.1.2 Mae'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Panel yn y Gwrandawriad ar 28 Ionawr 2019 ynghlwm yn **Atodiad 1**.
- 3.1.3 Mae cofnodion drafft y Panel Caniatâd Arbennig ynghlwm yn **Atodiad 2**.
- 3.1.4 Penderfynodd y Panel roi caniatâd heb gyfyngiadau i'r Cynghorydd Huws ar y telerau isod:-
- I ysgrifennu at swyddogion a'r Pwyllgor Gwaith / Pwyllgor / Cyngor ynglŷn â'r mater;
 - I siarad â swyddogion y Cyngor ynglŷn â'r mater cyhyd ag y cedwir cofnod o unrhyw drafodaethau;
 - I siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith / Pwyllgor / Cyngor ac ateb unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r mater;
 - I aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth a/neu bleidlais ynglŷn â'r mater;
 - I bleidleisio yn y cyfarfodydd hynny; ac
 - I gymryd rhan mewn unrhyw gyfarfodydd allanol yn ei chapasiti fel aelod etholedig.
- 3.1.5 Dyma'r rhesymau dros roddi'r caniatâd arbennig:-
- (d) mae natur diddordeb yr Aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr Aelod i'r busnes y mae'r diddordeb yn ymwneud ag ef yn andwyol i hyder y cyhoedd yn y modd yr ymdrinnir â busnes y Cyngor;
 - (f) mae cyfranogiad yr Aelod i'r busnes y mae'r diddordeb yn gysylltiedig ag ef yn cael ei gyfiawnhau yn rhinwedd swyddogaeth neu arbenigedd penodol yr Aelod;
 - (g) mae'r diddordeb cofrestradwy'n ymwneud â busnes fydd yn cael ei ystyried gan Bwyllgor Sgriwtini'r Cyngor, ac nid oes gan yr Aelod ddiddordeb ariannol yn y busnes hwnnw;
 - (i) ymddengys i'r Pwyllgor Safonau fod y diddordeb yn ddiddordeb i drigolion ardal y Cyngor ac y dylid dileu'r anallu, cyhyd â bod hysbysiad ysgrifenedig o

roddi caniatâd arbennig yn cael ei roi i Lywodraeth Cenedlaethol Cymru o fewn 7 niwrnod. Dylai hysbysiad o'r fath roi manylion am yr Aelod sydd wedi derbyn y caniatâd arbennig a rhesymau'r Pwyllgor Safonau dros ddileu'r anallu.

- 3.1.6 Bydd y caniatâd arbennig (os yw'n parhau i fod yn berthnasol) yn dod i ben beth bynnag pan ddaw tymor cyfredol y Cynghorydd Llinos Medi Huws ar Gyngor Sir Ynys Môn i derfyn.

3.2 Gwrandawriad y Panel Caniatâd Arbennig ar 11 Chwefror 2019 a gafodd ei ganslo

- 3.2.1 Derbyniwyd 5 o geisiadau am ganiatâd arbennig gan Gynghorwyr Cyngor Cymuned Llanbadrig mewn perthynas â Wylfa Newydd.
- 3.2.2 Trefnwyd Gwrandawriad ar gyfer 11 Chwefror 2019. Fodd bynnag, oherwydd y datblygiadau ym mis Ionawr 2019 a phenderfyniad Hitachi i ohirio gwaith ar brosiect Wylfa Newydd, gwnaed penderfyniad i ohirio'r Gwrandawriad am gyfnod amhenodol. Cyngorwyd Clerc y Cyngor Cymuned i gysylltu â swyddogion yn yr Adran Gyfreithiol petai angen trefnu gwrandawriad pellach.

3.3 Gwrandawriad y Panel Caniatâd Arbennig ar 7 Mawrth 2019

- 3.3.1 Mae Gwrandawriad gerbron y Panel Caniatâd Arbennig wedi cael ei drefnu ar gyfer 7 Mawrth 2019 i ystyried cais gan aelodau Cyngor Cymuned Llaneilian mewn perthynas â'r ddarpariaeth addysgol yn yr ysgolion yn ardal Amlwch.
- 3.3.2 Mae mwy na hanner Aelodau'r Cyngor Cymuned wedi cyflwyno cais a bydd y mater yn cael ei ystyried fel caniatâd arbennig bloc.
- 3.3.3 Rhoddir diweddariad ar lafar ynghylch penderfyniad y Panel i'r Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod ar 13 Mawrth 2019 a cheir cadarnhad ysgrifenedig yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau ym mis Medi 2019.

3.4 Gwrandawriad y Panel Caniatâd Arbennig ar 22 Mawrth 2019

- 3.4.1 Yn y Gwrandawriad o'r Panel Caniatâd Arbennig a gynhaliwyd i ystyried cais y Cynghorydd Llinos Medi Huws am ganiatâd arbennig, eglurodd y Panel ei fod o'r farn y dylai cais am ganiatâd arbennig gael ei gyflwyno gan unrhyw aelod / neu'r cyfan o aelodau'r Pwyllgor Gwaith sy'n rieni / neiniau a theidiau i blant a phobl ifanc ar Ynys Môn a all gael eu heffeithio gan benderfyniad mewn perthynas â'r ddarpariaeth addysg ôl-16 yn y Sir.
- 3.4.2 Gwnaed ymholiadau ac mae cais bloc am gael ei gyflwyno ar ffurf 2 ffurflen gais (y naill ar gyfer pum aelod o'r Pwyllgor Gwaith sy'n deidiau) a'r llall gan y Cyngorydd Carwyn Elias Jones.
- 3.4.3 Cyflwynir cadarnhad ysgrifenedig o benderfyniad y Panel i'r cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau a gynhelir ym mis Medi 2019.

4. ARGYMHELLIAD

1. Bod y Pwyllgor yn nodi'r caniatadau arbennig a roddwyd a'r sail a'r amgylchiadau dros eu caniatáu.
2. Bod aelodau'r Panel yn unig (Michael Wilson, Denise Harris-Edwards John R Jones) yn cadarnhau/diwygio'r cofnodion drafft yn **Atodiad 2**.
3. Bod y Pwyllgor yn derbyn gwybodaeth ysgrifenedig am y caniatadau arbennig eraill a nodir yn 3.3 a 3.4 yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau a gynhelir ym mis Medi 2019.
4. Er bod hyn yn cael ei awgrymu, bod y Pwyllgor yn cytuno i ddiwygio'r Cais Safonol am Ganiatâd Arbennig/y Ffurflen Ganiatâd i gynnwys cyfeiriad penodol fel rhan o'r ddewislen "ganiatâd", fel bod unrhyw Aelod sy'n cael caniatâd arbennig yn cael cymryd rhan mewn unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus a chyrff allanol. Dyma'r geiriad a awgrymir:
"os yw'n berthnasol, bydd hyn yn cynnwys cymryd rhan lawn mewn unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd o unrhyw gyrff allanol ac ati".

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
CYFARFOD:	PWYLLGOR SAFONAU (PANEL CANIATÂD ARBENNIG)
DYDDIAD:	28 IONAWR 2019
TEITL YR ADRODDIAD:	YSTYRIED CAIS AM GANIATÂD ARBENNIG
PWRPAS YR ADRODDIAD:	I BENDERFYNU AR GAIS AM GANIATÂD ARBENNIG GAN GYNGHORYDD SIR (YR ARWEINYDD) A THELERAU UNRHYW GANIATÂD A RODDIR
ADRODDIAD GAN:	Mared Wyn Yaxley CYFREITHIWR (LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL) mwyys@ynysmon.gov.uk / 01248 752566

DOGFENNAU ATODOL

1. Côt Ymddygiad Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn
2. Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001
3. Adran 4 o Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016
4. Nodyn Briffio ar Ganiatâd Arbennig a ddarparwyd gan y Pwyllgor Safonau ar gyfer aelodau etholedig Cyngor Sir Ynys Môn ynghyd â Ffurflenni Cais a Phenderfyniad
5. Cynllun y Cyngor 2017-2022
6. Dogfen Gyflawni Blynnyddol 2018-2019
7. Cais Cynghorydd Llinos Medi Huws
8. Nodyn Methodoleg wrth gysidro ceisiadau am ganiatâd arbennig

1. CEFNDIR CYFREITHIOL

Yn unol â Chod Ymddygiad Cyngor Sir Ynys Môn (**Atodiad 1**), ni all aelodau sydd â diddordeb personol sy'n rhagfarnu drafod y mater hwnnw yn y Cyngor Sir, nac mewn unrhyw gyfarfod mae nhw'n ei fynychu yn rhinwedd eu swyddogaeth fel aelod o'r Cyngor.

Mae rhestr o ddiddordebau personol ym mharagraff 10 y Cod. Mae'r diffiniad o ddiddordeb sy'n rhagfarnu ym mharagraff 12 y Cod.

Mewn rhai amgylchiadau penodol, a chyfyngedig, gall aelod oresgyn y rhwystr sy'n cael ei greu gan y diddordeb personol sy'n rhagfarnu drwy dderbyn caniatâd arbennig gan y Pwyllgor Safonau.

Ni fedrir ond rhoi caniatâd arbennig yn yr amgylchiadau sy'n cael eu rhestru yn Adran 2 o **Atodiad 2**, ac wedi eu diwygio yn unol ag **Atodiad 3**. Yn ogystal, manylir ar yr amgylchiadau hyn yn y Nodyn Briffio ac ar gefn y Ffurflen Gais sydd yn rhan ohono (**Atodiad 4**).

2. CEFNDIR FFEITHIOL

Mae'n hysbys fod Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnal ymgysylltiadau efo (a) ysgolion ardal Amlwch a (b) ysgolion uwchradd y sir ynghylch addysg ôl-16.

Mae Moderneiddio Ysgolion yn un o amcanion Cyngor Sir Ynys Môn o fewn Cynllun y Cyngor ar gyfer 2017-2022. Gweler **Atodiad 5**.

Cyhoeddwyd "Dogfen Gyflawni Blynyddol 2018-2019" gyda chyflwyniad gan Cynghorydd Llinos Medi Huws yn ei swyddogaeth fel Arweinydd y Cyngor. Yr amcan cyntaf gaiff ei drafod ydi addysg a sgiliau a'r model addysgu yn Amlwch. Gweler **Atodiad 6**.

Mae proses ymgysylltu wedi mynd rhagddi ym mis Tachwedd a Rhagfyr ym mhob un o'r ysgolion sydd dan sylw, gan gynnwys ysgolion cynradd ardal Amlwch a'r 5 ysgol uwchradd yn Ynys Môn. Roedd hyn yn cynnwys nosweithiau agored, gyda swyddogion ac aelodau etholedig y bresennol. Roedd Cynghorydd Llinos Medi Huws yn bresennol yn y nosweithiau hyn.

Mae Amserlen Moderneiddio Ysgolion (Ardal Amlwch) yn nodi byddai unrhyw ysgol newydd yn barod ar gyfer Medi 2022 (llai na 4 mlynedd). Ar sawl pwynt gwahanol, bydd angen i'r Pwyllgor Gwaith wneud argymhellion a phenderfyniadau. Yr Arweinydd ydi cadeirydd cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith.

Bydd yr Arweinydd yn mynychu gerbron Panel y Pwyllgor Safonau er mwyn cyflwyno ei chais a chynnig unrhyw wybodaeth bellach er budd y Panel.

3. Y CAIS

Rhaid i unrhyw aelod sydd eisiau caniatâd arbennig wneud cais ysgrifenedig sy'n egluro'r rhwystr a'r egwyddor mae o/hi eisiau dibynnu arni er mwyn ymgeisio. Bydd y Pwyllgor Safonau, neu Banel o'r Pwyllgor Safonau, yn gwrando ar y cais mewn cyfarfod cyhoeddus.

Mae'r cais sydd wedi ei dderbyn wedi ei atodi yn **Atodiad 7**, ac mae'r cais yn nodi'r busnes y mae'r Arweinydd yn dymuno cymryd rhan ynddo, y math o ganiatâd mae hi'n ofyn amdano a'r sail statudol ar gyfer gwneud y cais.

Gall y Panel ofyn cwestiynau pellach ynghylch y Cais yn y cyfarfod cyhoeddus.

4. YSTYRIAETHAU'R PANEL

Dylai'r Panel gysidro dilyn y Nodyn Methodoleg (**Atodiad 8**) sy'n rhestru'r materion hynny sydd angen eu hystyried gan y Panel.

Mewn unrhyw achos lle mae'r Panel yn penderfynu rhoi caniatâd arbennig, rhaid i'r Panel ystyried hefyd a ddylid gosod unrhyw gyfyngiadau ar y caniatâd e.e. cyfyngu'r caniatâd i'r diddordebau penodol hynny sydd wedi eu nodi yn y cais yn unig neu ei ymestyn i gynnwys materion eraill fydd yn codi o'r mater hwn yn y dyfodol, ayyb. Cyfeirir y Panel at y 'Ffurflen Benderfyniad' sydd wedi ei chynnwys yn **Atodiad 4** sy'n nodi'r ystyriaethau y dylid eu cadw mewn cof pan yn rhoi caniatâd arbennig i ymgeisydd.

5. ARGYMHELLION

I ystyried y cais yn ôl ei haeddiant, a

- (A) Phenderfynu â ddylid rhoi caniatâd arbennig ai peidio; ac
- (B) os yn rhoi caniatâd arbennig, ystyried :-
 - (i) ar ba sail y mae'r caniatâd arbennig yn cael ei roi; ac
 - (ii) a ddylid gosod unrhyw gyfyngiadau/rwystrau ar y caniatâd.

5.1 Côt Ymddygiad i Aelodau

Dyma'r Côt Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor Sir ar 12.05.2016

Rhan 1 – Dehongli

1. (1) Yn y cod hwn

mae “aelod” (“member”) yn cynnwys aelod cyfetholedig onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall;

ystyr “aelod cyfetholedig” (“co-opted member”), mewn perthynas ag awdurdod perthnasol, yw person nad yw'n aelod o'r awdurdod ond -

(a) sy'n aelod o unrhyw bwyllgor neu is-Bwyllgor i'r awdurdod, neu

(b) sy'n aelod o unrhyw gyd-bwyllgor neu gyd is-Bwyllgor i'r awdurdod, ac sy'n cynrychioli'r awdurdod arno

ac sydd â'r hawl i bleidleisio ar unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu mewn unrhyw gyfarfod o'r pwyllgor neu o'r is-Bwyllgor hwnnw;

ystyr “eich awdurdod” (“your authority”) yw'r awdurdod perthnasol yr ydych chi'n aelod neu'n aelod cyfetholedig ohono;

ystyr “awdurdod perthnasol” (“relevant authority”) yw -

(a) cyngor sir,

(b) cyngor bwrdeistref sirol,

(c) cyngor cymuned,

(ch) awdurdod tân ac achub a gyfansoddwyd drwy gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo,

(d) awdurdod Parc Cenedlaethol a sefydlwyd o dan adran 63 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995;

ystyr “cofrestr o fuddiannau'r aelodau” (“register of members' interests”) yw'r gofrestr a sefydlir ac a gedwir o dan adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000;

ystyr “cyfarfod” (“meeting”) yw unrhyw gyfarfod -

(a) o'r awdurdod perthnasol,

(b) o unrhyw weithrediaeth neu fwrdd i'r awdurdod perthnasol,

(c) o unrhyw bwyllgor, Is-Bwyllgor, cyd-bwyllgor neu gyd-Is-Bwyllgor i'r awdurdod perthnasol neu unrhyw bwyllgor, is-bwyllgor, cyd-bwyllgor neu gyd-is-bwyllgor o'r fath i unrhyw weithrediaeth neu fwrdd i'r awdurdod, neu

(ch) y mae aelodau neu swyddogion yr awdurdod perthnasol yn bresennol ynddo ac eithrio cyfarfod grŵp gwleidyddol a gyfansoddwyd yn unol â rheoliad 8 o Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990 ,

ac mae'n cynnwys amgylchiadau lle mae aelod o weithredaeth neu fwrdd neu swyddog yn gweithredu ar ei ben ei hun yn cyflawni swyddogaeth awdurdod

ystyr "chi" ("you") yw chi fel aelod neu aelod cyfetholedig o awdurdod perthnasol.

(2) Mewn perthynas â chyngor cymuned—

(a) ystyr "swyddog priodol" ("proper officer") yw swyddog o'r cyngor hwnnw o fewn ystyr adran 270(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972; a

(b) ystyr "pwyllgor safonau" ("standards committee") yw pwyllgor safonau'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol sydd â swyddogaethau mewn perthynas â'r cyngor cymuned y mae'n gyfrifol amdano o dan adran 56(1) a (2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

Rhan 2 - Darpariaethau Cyffredinol

2. (1) Ac eithrio pan fo paragraff 3(a) yn gymwys, rhaid i chi gydymffurfio â'r cod ymddygiad hwn -

(a) pa bryd bynnag y byddwch yn cynnal busnes eich awdurdod, neu'n bresennol mewn un o gyfarfodydd eich awdurdod;

(b) pa bryd bynnag y byddwch yn gweithredu, yn honni gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu yn rôl aelod y cawsoch eich ethol neu eich penodi iddi;

(c) pa bryd bynnag y byddwch yn gweithredu, yn honni gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu fel un o gynrychiolwyr eich awdurdod; neu

(ch) ar bob adeg ac mewn unrhyw gapasiti, mewn cysylltiad ag ymddygiad a nodir ym mharagraffau 6(1)(a) a 7.

(2) Dylech ddarllen y cod hwn ar y cyd â'r egwyddorion cyffredinol a ragnodir o dan adran 49(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 o ran Cymru.

3. Os byddwch wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i wasanaethu -

(a) ar awdurdod perthnasol arall, neu ar unrhyw gorff arall, sy'n cynnwys awdurdod heddlu neu Fwrdd Iechyd Lleol rhaid i chi, pan fyddwch yn gweithredu ar ran yr awdurdod arall neu'r corff arall hwnnw, gydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod arall neu'r corff arall hwnnw; neu

(b) ar unrhyw gorff arall nad oes ganddo gôd sy'n ymwneud ag ymddygiad ei aelodau, rhaid i chi, pan fyddwch yn gweithredu ar ran y corff arall hwnnw, gydymffurfio â'r côd ymddygiad hwn, ac eithrio pan yw'n gwrthdaro ag unrhyw rwymedigaethau cyfreithlon eraill y gall y corff hwnnw fod yn ddarostyngedig iddynt neu i'r graddau y mae'n gwrthdaro â'r cyfryw rwymedigaethau.

4. Rhaid i chi -

(a) gyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi sylw dyladwy i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd;

(b) ddangos parch at eraill ac ystyriaeth ohonynt;

(c) beidio ag ymddwyn fel bwli neu harasio unrhyw berson;

(ch) beidio â gwneud dim sy'n cyfaddawdu, neu sy'n debygol o gyfaddawdu, diduedrwydd y sawl sy'n gweithio i'ch cyngor neu ar ei ran; a

(d) mynychu o leiaf un sesiwn hyfforddiant ar y côd ymddygiad hwn yn ystod pob tymor llawn yn y swydd ac, yn achos yr aelodau hynny sydd wedi cael eu hethol i'r Cyngor Sir am y tro cyntaf a'r rheiny sydd wedi cael eu hailethol ond nad ydynt wedi treulio cyfnod didor yn y swydd, rhaid iddynt fynychu'r hyfforddiant yn ystod y chwe mis yn dilyn eu hethol.

5. Rhaid i chi -

(a) beidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth y byddai'n rhesymol ystyried ei bod o natur gyfrinachol, heb gydsyniad datganedig person a awdurdodwyd i roi cydsyniad o'r fath, neu onid yw'r gyfraith yn mynnu eich bod yn gwneud hynny;

(b) beidio â rhwystro unrhyw berson rhag gweld gwybodaeth y mae gan y person hwnnw hawl i'w gweld yn ôl y gyfraith.

6. (1) Rhaid i chi -

(a) beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu ar eich awdurdod;

(b) adrodd, p'un ai drwy weithdrefn adrodd gyfrinachol eich awdurdod neu'n uniongyrchol i'r awdurdod priodol, ar unrhyw ymddygiad gan aelod arall neu gan unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran ac y mae'n rhesymol i chi fod o'r farn ei fod yn golygu neu'n debygol o olygu ymddygiad troseddol (nad yw at ddibenion y paragraff hwn yn cynnwys tramgwyddau neu ymddygiad y gellir ei gosbi drwy gosb benodedig);

(c) roi gwybod i swyddog monitro eich awdurdod am unrhyw ymddygiad gan aelod arall y mae'n rhesymol i chi fod o'r farn ei fod yn groes i'r côd ymddygiad hwn;

(ch) beidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wamal yn erbyn aelodau eraill neu unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran.

(2) Rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw gais gan swyddog monitro eich awdurdod, neu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mewn cysylltiad ag ymchwiliad a wneir yn unol â'u gwahanol bwerau statudol.

7. Rhaid i chi -

(a) yn eich capasiti swyddogol neu fel arall, beidio â defnyddio neu geisio defnyddio eich safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall;

(b) beidio â defnyddio adnoddau eich awdurdod, neu awdurdodi eraill i'w defnyddio -

(i) yn annoeth;

(ii) yn groes i ofynion eich awdurdod;

(iii) yn anghyfreithlon;

(iv) ac eithrio mewn dull a fwriedir i hwyluso neu i ffafrio cyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu'r swydd yr ydych wedi eich ethol neu eich penodi iddo neu iddi;

(v) yn amhriodol at ddibenion gwleidyddol; neu

(vi) yn amhriodol at ddibenion preifat.

8. Rhaid i chi -

(a) pan fyddwch yn cyfrannu mewn cyfarfodydd neu'n gwneud penderfyniadau ynghylch busnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef, wneud hynny ar sail rhinweddau'r amgylchiadau o dan sylw ac er budd y cyhoedd gan roi sylw i unrhyw gyngor perthnasol a ddarperir gan swyddogion eich awdurdod, ac yn benodol gan -

(i) pennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod;

(ii) Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151 yr awdurdod;

(iii) swyddog monitro'r awdurdod;

(iv) prif swyddog cyfreithiol yr awdurdod (y dylid ymgynghori ag ef pan fo unrhyw amheuaeth ynghylch pŵer yr awdurdod i weithredu, ynghylch a yw'r cam a arfaethir yn dod o fewn y fframwaith polisi y cytunwyd arno gan yr awdurdod neu os gallai canlyniadau cyfreithiol gweithredu neu fethu â gweithredu gan yr awdurdod gael ôl-ffeithiau pwysig);

(b) rhoi rhesymau dros bob penderfyniad yn unol ag unrhyw ofynion statudol ac unrhyw ofynion rhesymol ychwanegol a osodir gan eich awdurdod.

9. Rhaid i chi -

(a) barchu'r gyfraith a rheolau eich awdurdod sy'n llywodraethu hawlio treuliau a lwfansau mewn cysylltiad â'ch dyletswyddau fel aelod;

(b) osgoi derbyn rhoddion oddi wrth neb, na lletygarwch (ac eithrio lletygarwch swyddogol, megis derbyniad dinesig neu weithio dros ginio, a awdurdodir yn briodol gan eich awdurdod) na buddiannau materol neu wasanaethau i chi eich hun neu i unrhyw berson os byddai gwneud hynny'n eich rhoi o dan rwymedigaeth amhriodol, neu os gallai'n rhesymol ymddangos fel pe bai'n gwneud hynny.

Rhan 3 - Buddiannau

Buddiannau Personol

10. (1) Ym mhob mater rhaid i chi ystyried a oes gennych fuddiant personol, ac a yw'r côd ymddygiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i chi ddatgelu'r buddiant hwnnw.

(2) Rhaid i chi ystyried bod gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef -

(a) os yw'n gysylltiedig â'r canlynol, neu'n debygol o effeithio arnynt -

(i) unrhyw gyflogaeth yr ydych yn ymgymryd â hi neu fusnes yr ydych yn ei redeg;

(ii) unrhyw berson sy'n eich cyflogi neu sydd wedi eich penodi, unrhyw ffyrm yr ydych yn bartner ynddi neu unrhyw gwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl;

(iii) unrhyw berson, ac eithrio eich awdurdod, sydd wedi rhoi taliad i chi mewn cysylltiad â'ch ethol neu mewn cysylltiad ag unrhyw dreuliau a gawsoch wrth i chi gyflawni eich dyletswyddau fel aelod;

(iv) unrhyw gorff corfforaethol y mae ganddo le busnes neu dir yn ardal eich awdurdod, ac y mae gennych chi fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sydd gan y corff hwnnw ac sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £25,000 neu un ganfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfrannau dyroddedig y corff hwnnw;

(v) unrhyw gontract am nwyddau, gwasanaethau neu waith neu waith a wnaed rhyngoch chi, rhwng ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, neu rhwng cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu rhwng corff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod a'ch awdurdod;

(vi) unrhyw dir y mae gennych fuddiant llesiannol ynddo ac sydd yn ardal eich awdurdod;

(vii) unrhyw dir y mae eich awdurdod yn landlord arno ac y mae ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu gorff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod yn denant arno;

(viii) unrhyw gorff yr ydych wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(ix) unrhyw -

(aa) awdurdod cyhoeddus neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus;

(bb) cwmni, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, elusen, neu gorff arall a chanddo ddibenion elusennol;

(cc) corff y mae dylanwadu ar farn neu bolisi cyhoeddus ymhlith ei brif ddibenion;

(chch) undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol; neu

(dd) clwb preifat neu gymdeithas breifat sy'n gweithredu o fewn ardal eich awdurdod

ac yn berthnasol i (aa) i (dd), yr ydych yn aelod ohono neu ohoni neu mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo neu ynddi;

(x) unrhyw dir yn ardal eich awdurdod y mae gennych drwydded (ar eich pen eich hun neu ar y cyd ag eraill) i'w feddiannu am 28 o ddiwrnodau neu fwy;

[Sylwer: mae isbaragraff (b) wedi cael ei adael allan] -

(c) pe byddai'n rhesymol ystyried penderfyniad arno yn benderfyniad a fyddai'n effeithio -

(i) ar eich llesiant neu eich sefyllfa ariannol, neu lesiant neu sefyllfa ariannol person yr ydych yn byw gydag ef, neu unrhyw berson y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef;

(ii) ar unrhyw gyflogaeth yr ymgwymerir â hi neu fusnes a redir gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i);

(iii) ar unrhyw berson sy'n cyflogi neu sydd wedi penodi'r cyfryw bersonau ag a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i), unrhyw ffyrn y mae'r cyfryw bersonau'n bartneriaid ynddi, neu unrhyw gwmni y maent yn gyfarwyddwyr arno;

(iv) ar unrhyw gorff corfforaethol y mae gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i) fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £5,000; neu

(v) ar unrhyw gorff a restrir ym mharagraffau 10(2)(a)(ix)(aa) i (dd) y mae personau a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i) mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo,

ac yn berthnasol i (i) i (v), a hynny i raddau mwy -

(aa) yn achos awdurdod â dosbarthiadau etholiadol neu wardiau, na'r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn y dosbarth etholiadol neu'r ward, yn ôl y digwydd, y bydd y penderfyniad yn effeithio arnynt; neu

(bb) ym mhob achos arall, na'r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, o bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn ardal yr awdurdod.

Datgelu Buddiannau Personol

11. (1) Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch yn bresennol mewn cyfarfod lle y caiff y busnes hwnnw ei ystyried, rhaid i chi ddatgelu ar lafar gerbron y cyfarfod hwnnw fodolaeth a natur y

buddiant hwnnw cyn i'r cyfarfod ystyried y busnes neu ar ddechrau'r ystyriaeth, neu pan ddaw'r buddiant i'r amlwg.

(2) Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch yn gwneud -

(a) cynrychioliadau ysgrifenedig (p'un ai drwy lythyr, neges ffacs neu ar ryw ffurf arall ar gyfathrebu electronig) i un o aelodau neu o swyddogion eich awdurdod ynghylch y busnes hwnnw, dylech gynnwys manylion am y buddiant hwnnw yn y gyfathrebiaeth ysgrifenedig; neu

(b) cynrychioliadau llafar (p'un ai'n personol neu ar ryw ffurf ar gyfathrebu electronig) i un o aelodau neu o swyddogion eich awdurdod dylech ddatgelu'r buddiant ar ddechrau'r cyfryw gynrychioliadau, neu pan ddaw'n amlwg i chi fod gennych fuddiant o'r fath, a chadarnhau'r cynrychioliad a'r buddiant yn ysgrifenedig o fewn 14 o ddiwrnodau ar ôl gwneud y cynrychioliad.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff 14(1)(b) isod, os bydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch wedi gwneud penderfyniad wrth arfer un o swyddogaethau gweithrediaeth neu fwrdd, rhaid i chi mewn perthynas â'r busnes hwnnw sicrhau bod unrhyw ddatganiad ysgrifenedig ynghylch y penderfyniad hwnnw'n cofnodi bodolaeth a natur eich buddiant.

(4) Rhaid i chi, mewn cysylltiad â buddiant personol nas datgelwyd eisoes, cyn cyfarfod neu'n syth ar ôl diwedd cyfarfod pan ddatgelir y buddiant yn unol ag is-baragraff 11(1), roi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod yn unol ag unrhyw ofynion a nodir gan swyddog monitro eich awdurdod o bryd i'w gilydd ond, rhaid cynnwys o leiaf -

(a) manylion am y buddiant personol;

(b) manylion am y busnes y mae'r buddiant personol yn gysylltiedig ag ef; ac

(c) eich llofnod

(5) Pan fydd eich swyddog monitro wedi cytuno bod yr wybodaeth sy'n ymwneud â'ch buddiant personol yn wybodaeth sensitif, yn unol â pharagraff 16(1), mae eich rhwymedigaethau o dan y paragraff 11 hwn i ddatgelu'r cyfryw wybodaeth, p'un ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, i'w disodli gan rwymedigaeth i ddatgelu bodolaeth buddiant personol ac i gadarnhau bod eich swyddog monitro wedi cytuno bod y cyfryw fuddiant personol o natur gwybodaeth sensitif.

(6) At ddibenion is-baragraff (4), dim ond os bod hysbysiad ysgrifenedig wedi ei ddarparu yn unol â'r côd hwn ers y dyddiad diwethaf pryd yr etholwyd chi, y penodwyd chi neu yr enwebwyd chi'n aelod o'ch awdurdod y bernir bod buddiant personol wedi ei ddatgelu eisoes.

(7) At ddibenion is-baragraff (3), os na ddarperir hysbysiad ysgrifenedig yn unol â'r paragraff hwnnw bernir na fyddwch wedi datgan buddiant personol yn unol â'r côd hwn.

Buddiannau sy'n Rhagfarnu

12. (1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2) isod, os bydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu yn y busnes hwnnw os bydd y buddiant yn un y bydd yn rhesymol i aelod o'r cyhoedd sy'n gwybod y ffeithiau perthnasol fod o'r farn ei fod mor arwyddocaol fel y bydd yn debygol o ragfarnu eich barn ynghylch buddiant cyhoeddus.

(2) Yn amodol ar (3), nid ystyrir bod gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes os bydd y busnes hwnnw -

(a) yn gysylltiedig -

(i) ag awdurdod perthnasol arall yr ydych hefyd yn aelod ohono;

(ii) ag awdurdod cyhoeddus arall neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus lle yr ydych mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol;

(iii) â chorff yr ydych wedi cael eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(iv) â'ch rôl fel llywodraethwr ysgol (os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod) oni bai bod y busnes yn benodol gysylltiedig â'r ysgol yr ydych yn un o'i llywodraethwyr;

(v) â'ch rôl fel aelod o Fwrdd Iechyd Lleol os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(b) yn gysylltiedig:

(i) â swyddogaethau tai eich awdurdod os oes gennych denantiaeth neu les gyda'ch awdurdod, ar yr amod nad oes arnoch i'ch awdurdod ôl-ddyledion rhent o fwy na deufis, ac ar yr amod nad yw'r swyddogaethau hynny'n ymwneud yn arbennig â'ch tenantiaeth neu â'ch les;

(ii) â swyddogaethau eich awdurdod mewn cysylltiad â phrydau ysgol, cludiant a threuliau teithio, os ydych chi'n warchodwr, yn rhiant, yn fam-gu neu'n nain neu'n dad-cu neu'n daid, neu os oes gennych gyfrifoldeb rhiant (fel y'i diffinnir yn adran 3 o Deddf Plant 1989) dros blentyn sy'n cael addysg amser llawn, onid yw'r busnes yn benodol gysylltiedig â'r ysgol y mae'r plentyn hwnnw'n ei mynychu;

(iii) â swyddogaethau eich awdurdod mewn cysylltiad â thâl salwch statudol o dan Ran XI o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992, os ydych yn cael, neu os oes gennych hawl i gael, taliad o'r fath gan eich awdurdod;

(iv) â swyddogaethau eich awdurdod mewn cysylltiad â lwfans neu daliad a wneir yn unol â darpariaethau Rhan 8 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, neu lwfans neu bensiwn a ddarperir o dan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;

(c) yn gysylltiedig â'ch rôl fel cynghorydd cymunedol mewn perthynas â grant, benthyciad neu fath arall ar gymorth ariannol a wnaed gan eich cyngor cymuned i gyrrff cymunedol neu wirfoddol hyd at uchafswm o £500.

(3) Nid yw'r esemptiadau yn is-baragraff (2)(a) yn gymwys os yw'r busnes yn gysylltiedig â dyfarnu ar unrhyw gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestriad.

Pwyllgorau Trosolwg a Sgriwtini

13. Bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes sydd gerbron un o bwyllgorau trosolygu a chraffu eich awdurdod (neu un o is-bwyllgorau pwyllgor o'r fath) -

(a) os bydd y busnes hwnnw'n gysylltiedig â phenderfyniad a wnaed (p'un a gafodd ei weithredu ai peidio) neu gam a gymerwyd gan weithrediaeth, bwrdd, neu un arall o bwyllgorau, is-bwyllgorau, cyd-bwyllgorau neu o gyd-is-bwyllgorau eich awdurdod; a

(b) os oeddech chi, ar yr adeg pan wnaed y penderfyniad neu pan gymerwyd y cam, yn aelod o'r weithrediaeth, y bwrdd, y pwyllgor, yr is-bwyllgor, y cyd-bwyllgor neu'r cyd-is-bwyllgor a grybwyllir yn is-baragraff (a) a'ch bod chi'n bresennol pan wnaed y penderfyniad hwnnw neu pan gymerwyd y cam hwnnw.

Cyfrannu mewn Perthynas â Datgelu Buddiannau

14. (1) Yn amodol ar is-baragraffau (2), (2A) (3) a (4), os bydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef rhaid i chi, oni roddwyd i chi ganiatâd arbennig gan bwyllgor safonau eich awdurdod -

(a) ymadael â'r ystafell, y siambr neu'r man lle y mae cyfarfod i ystyried y busnes yn cael ei gynnal -

(i) pan fo is-baragraff (2) yn gymwys, yn syth ar ôl i'r cyfnod ar gyfer gwneud cynrychioliadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth sy'n ymwneud â'r busnes ddod i ben a beth bynnag cyn i ystyriaeth bellach o'r busnes ddechrau, p'un a ganiateir i'r cyhoedd aros yn bresennol ar gyfer y cyfryw ystyriaeth ai peidio; neu

(ii) mewn unrhyw achos arall, pa bryd bynnag y daw i'r amlwg bod y busnes hwnnw'n cael ei ystyried yn y cyfarfod hwnnw;

(b) peidio ag arfer swyddogaethau gweithrediaeth neu fwrdd mewn perthynas â'r busnes hwnnw;

(c) peidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y busnes hwnnw;

(ch) peidio â gwneud unrhyw gynrychioliadau ysgrifenedig (p'un ai drwy lythyr, neges ffacs neu ar ryw ffurf arall ar gyfathrebu electronig) mewn perthynas â'r busnes hwnnw; a

(d) peidio â gwneud unrhyw gynrychioliadau llafar (p'un ai'n bersonol neu ar ryw ffurf ar gyfathrebu electronig) mewn cysylltiad â'r busnes hwnnw neu rhaid i chi roi'r gorau ar unwaith i wneud y cyfryw gynrychioliadau llafar pan ddaw'r buddiant sy'n rhagfarnu i'r amlwg.

(2) Os oes gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef cewch fod yn bresennol mewn cyfarfod ond dim ond er mwyn gwneud cynrychioliadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth sy'n ymwneud â'r busnes, ar yr amod

y caniateir hefyd i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod i'r un diben, p'un ai o dan hawl statudol neu fel arall.

(2A) lle mae gennych ddiddordeb sy'n rhagfarnu ym musnes yr awdurdod, gallwch gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i gyfarfod mewn perthynas â'r busnes hwnnw ar yr amod y caniateir i'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod i bwrpas gwneud sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth am y busnes p'un a yw'n statudol ai peidio.

(2B) wrth gyflwyno sylwadau ysgrifenedig dan baragraff (2A), rhaid i chi gydymffurfio gydag unrhyw weithdrefn y gall eich awdurdod ei mabwysiadu ar gyfer cyflwyno sylwadau o'r fath.

(3) Nid yw is-baragraff (1) yn eich rhwystro rhag bod yn bresennol a chyfrannu mewn cyfarfod -

(a) os gofynnir i chi fod yn bresennol mewn cyfarfod o bwyllgor trosolwg neu sgrwtini, gan y cyfryw bwyllgor ac yntau'n arfer ei bwerau statudol; neu

(b) os oes gennych y fantais o fod â chaniatâd arbennig ar yr amod -

(i) eich bod yn datgan yn y cyfarfod eich bod yn dibynnu ar y gollyngiad; a

(ii) eich bod, cyn y cyfarfod neu'n syth ar ôl i'r cyfarfod orffen, yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod a bod hwnnw'n cynnwys -

(aa) manylion y diddordeb sy'n rhagfarnu;

(bb) manylion y busnes y mae'r diddordeb sy'n rhagfarnu'n gysylltiedig ag ef;

(cc) manylion y caniatâd arbennig a'r dyddiad pryd y'i rhoddwyd; a

(chch) eich llofnod.

(4) Os bydd gennych ddiddordeb sy'n rhagfarnu a'ch bod yn gwneud cynrychioliadau ysgrifenedig neu lafar i'ch awdurdod gan ddibynnu ar ganiatâd arbennig, rhaid i chi ddarparu manylion am y caniatâd arbennigmewn unrhyw sylwadau a wnewch yn ysgrifenedig neu ar lafar ac, yn yr achos olaf hwn, rhaid i chi ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer eich awdurdod o fewn 14 o ddiwrnodau ar ôl gwneud y sylwadau.

Rhan 4 - Cofrestr o Ddiddordebau'r Aelodau

Cofrestru Buddiannau Personol

15. (1) yn amodol ar is-baragraff (4), rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl -

(a) i gôd ymddygiad eich awdurdod gael ei fabwysiadu neu i ddarpariaethau gorfodol y côd enghreifftiol hwn gael eu cymhwyso i'ch awdurdod; neu

(b) i chi gael eich ethol neu eich penodi i swydd (os digwydd hynny'n ddiweddarach),

gofrestru eich buddiannau personol, os ydynt yn dod o fewn categori a grybwyllir ym mharagraff 10(2)(a) yng nghofrestr eich awdurdod o fuddiannau'r aelodau, drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl dod yn ymwybodol o unrhyw fuddiant personol newydd sy'n dod o fewn categori a grybwyllir ym mharagraff 10(2)(a), gofrestru'r buddiant personol newydd hwnnw yng nghofrestr eich awdurdod o fuddiannau'r aelodau drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod.

(3) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl dod yn ymwybodol o unrhyw newid i fuddiant personol a gofrestrwyd sy'n dod o fewn categori a grybwyllir ym mharagraff 10(2)(a), gofrestru'r newid hwnnw yng nghofrestr eich awdurdod o fuddiannau'r aelodau drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod, neu, yn achos cyngor cymuned, swyddog priodol eich awdurdod.

(4) Nid yw is-baragraffau (1) a (2) a (3) yn gymwys i wybodaeth sensitif a benderfynir yn unol â pharagraff 16(1).

(5) Ni fydd is-baragraff (1) a (2) yn gymwys os ydych yn aelod o awdurdod perthnasol sy'n gyngor cymuned pan fyddwch yn gweithredu yn eich capasiti fel aelod o awdurdod o'r fath.

Gwybodaeth sensitif

16. (1) Os byddwch yn ystyried bod yr wybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw un neu rai o'ch buddiannau personol yn wybodaeth sensitif, a bod swyddog monitro eich awdurdod yn cytuno, nid oes angen i chi gynnwys yr wybodaeth honno pan fyddwch yn cofrestru'r diddordeb hwnnw, neu, yn ôl y digwydd, newid i'r diddordeb o dan baragraff 15.

(2) Rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl i chi ddod yn ymwybodol o unrhyw newid yn eich amgylchiadau sy'n golygu nad yw gwybodaeth sydd wedi ei heithrio o dan is-baragraff (1) mwyach yn wybodaeth sensitif, hysbysu swyddog monitro eich awdurdod gan ofyn am i'r wybodaeth gael ei chynnwys yng nghofrestr diddordebau aelodau eich awdurdod.

(3) Yn y cod hwn, ystyr "gwybodaeth sensitif" ("sensitive information") yw gwybodaeth y mae ei rhoi ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd yn creu, neu'n debygol o greu, risg ddifrifol y gallech chi neu berson sy'n byw gyda chi fod yn destun trais neu fygythion.

Cofrestru Rhoddion a Lletygarwch

17. Rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl i chi gael unrhyw rodd, lletygarwch, buddiant materol neu fantais faterol, sy'n fwy na gwerth a bennir mewn penderfyniad gan eich awdurdod, ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod yn nodi bodolaeth a natur y rhodd honno, y lletygarwch hwnnw, y buddiant materol hwnnw neu'r fantais faterol honno. Dylai hysbysiad ysgrifenedig o'r fath gael eu darparu [yma](#).

ATODIAD / ENCLOSURE 2



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2001 Rhif 2279 (Cy. 169)

2001 No. 2279 (W. 169)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

LOCAL GOVERNMENT , WALES

**Rheoliadau Pwyllgorau Safonau
(Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru)
2001**

**The Standards Committees (Grant
of Dispensations) (Wales)
Regulations 2001**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note does not form part of the Regulations)

O dan adran 51 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("y Ddeddf") mae'n ofynnol i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau tân ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru ("awdurdodau perthnasol") fabwysiadu cod ymddygiad ar gyfer aelodau ac aelodau cyfetholedig sy'n gorfod ymgorffori unrhyw ddarpariaethau gorfodol o unrhyw god ymddygiad enghreifftiol a gyhoeddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 50(2) o'r Ddeddf.

Mae adran 81(1) a (2) o'r Ddeddf yn darparu bod yn rhaid i'r swyddog monitro ym mhob awdurdod perthnasol sefydlu a chadw cofrestr o fuddiannau aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod a bod darpariaethau gorfodol y cod enghreifftiol sy'n gymwysadwy i bob awdurdod perthnasol yn gorfod ei gwneud yn ofynnol i aelodau ac aelodau cyfetholedig pob awdurdod gofrestru unrhyw fuddiannau ariannol ac eraill a bennir yn y darpariaethau gorfodol yng nghofrestr yr awdurdod hwnnw.

O dan adran 81(3) a (4) o'r Ddeddf rhaid i'r darpariaethau gorfodol hynny ei gwneud yn ofynnol hefyd i aelod neu aelod cyfetholedig o awdurdod perthnasol sydd â buddiant o'r fath ei ddatgelu cyn cymryd rhan mewn unrhyw fusnes gan yr awdurdod sy'n berthnasol i'r buddiant a gwneud darpariaeth i atal yr aelod neu'r aelod cyfetholedig hwnnw rhag cymryd rhan mewn unrhyw fusnes gan yr awdurdod y mae'r buddiant a ddatgelwyd yn berthnasol iddo neu i gyfyngu ar y rhan y mae'n ei chymryd ynddo.

County and county borough councils, community councils, fire authorities and National Park authorities in Wales ("relevant authorities") are required by section 51 of the Local Government Act 2000 ("the Act") to adopt a code of conduct for members and co-opted members which must incorporate any mandatory provisions of any model code of conduct issued by the National Assembly for Wales under section 50(2) of the Act.

Section 81(1) and (2) of the Act provides that the monitoring officer of each relevant authority must establish and maintain a register of interests of the members and co-opted members of the authority and that the mandatory provisions of the model code applicable to each relevant authority must require the members and co-opted members of each authority to register in that authority's register such financial and other interests as are specified in the mandatory provisions.

Under section 81(3) and (4) of the Act those mandatory provisions must also require a member or co-opted member of a relevant authority who has such an interest to disclose it before taking part in any business of the authority which relates to it and make provision for preventing or restricting the participation of that member or co-opted member in any business of the authority to which the disclosed interest relates.

Mae adran 81(4) o'r Ddeddf yn darparu nad yw unrhyw gyfranogiad gan aelod neu aelod cyfetholedig o awdurdod perthnasol mewn unrhyw fusnes a waherddir gan y darpariaethau gorfodol yn fethiant i gydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod os yw'r aelod neu'r aelod cyfetholedig wedi gweithredu yn unol â gollyngiad rhag y gwaharddiad a gafodd ei ganiatáu gan bwyllgor safonau'r awdurdod yn unol â rheoliadau a wneir o dan is-adran (5).

Mae'r rheoliadau hyn yn rhagnodi'r amgylchiadau y caiff pwyllgorau safonau'r awdurdodau perthasol ganiatáu gollyngiadau o'r fath odanynt.

Section 81(4) of the Act provides that any participation by a member or co-opted member of a relevant authority in any business which is prohibited by the mandatory provisions is not a failure to comply with the authority's code of conduct if the member or co-opted member has acted in accordance with a dispensation from the prohibition granted by the authority's standards committee in accordance with regulations made under subsection (5).

These regulations prescribe the circumstances in which standards committees of relevant authorities may grant such dispensations.

OFFERYNNAU STATUDOL

2001 Rhif 2279 (Cy. 169)

LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU

Rheoliadau Pwyllgorau Safonau
(Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru)
2001

Wedi'u gwneud

21 Mehefin 2001

Yn dod i rym

28 Gorffennaf 2001

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 81(5) ac (8) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(a).

Enw, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.- (1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 28 Gorffennaf 2001.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

(3) Yn y Rheoliadau hyn -

mae "aelod" ("*member*") yn cynnwys aelod cyfetholedig;

ystyr "awdurdod perthnasol" ("*relevant authority*") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, cyngor cymuned, awdurdod tân neu awdurdod Parc Cenedlaethol;

ystyr "buddiant" ("*interest*") yw buddiant y mae'n ofynnol ei gofrestru yng nghofrestr buddiannau'r awdurdod perthnasol;

ystyr "corff gwirfoddol" ("*voluntary organisation*") yw corff (heblaw awdurdod lleol neu gorff cyhoeddus arall) sy'n cynnal ei weithgareddau heblaw ar gyfer gwneud elw;

acystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 2000.

STATUTORY INSTRUMENTS

2001 No. 2279 (W. 169)

LOCAL GOVERNMENT,
WALES

The Standards Committees (Grant
of Dispensations) (Wales)
Regulations 2001

Made

21st June 2001

Coming into force

28th July 2001

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the power given to it by section 81(5) and (8) of the Local Government Act 2000(a).

Name, commencement, application and interpretation

1.- (1) The name of these Regulations is the Standards Committees (Grant of Dispensations) (Wales) Regulations 2001 and they shall come into force on 28th July 2001.

(2) These Regulations apply to Wales only.

(3) In these Regulations -

"interest" ("*buddiant*") means an interest which is required to be registered in the relevant authority's register of interests;

"member" ("*aelod*") includes a co-opted member;

"relevant authority" ("*awdurdod perthnasol*") means a county or county borough council, a community council, a fire authority or a National Park authority;

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Local Government Act 2000; and

"voluntary organisation" ("*corff gwirfoddol*") means a body (other than a local authority or other public body) whose activities are carried on otherwise than for profit.

(a) 2000 p. 22.

(a) 2000 c. 22.

Yr amgylchiadau lle gellir caniatáu gollyngiadau

2. Caiff pwyllgor safonau awdurdod perthnasol ganiatáu gollyngiadau o dan adran 81(4) o'r Ddeddf -

(a) os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu hanner aelodau un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw;

(b) os oes gan ddim llai na hanner aelodau gweithrediaeth arweinydd a chabinet y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw a bod naill ai paragraff (ch) neu baragraff (d) hefyd yn gymwys;

(c) yn achos cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, os byddai anallu aelod i gymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod perthnasol neu'r pwyllgor o'r awdurdod y mae'r busnes i'w ystyried ganddo i'r fath raddau nes y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio;

(ch) os yw natur buddiant yr aelod yn gyfryw fel na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal;

(d) os yw'r buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd;

(dd) os oes cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod;

(e) os yw'r busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo i'w ystyried gan bwyllgor trosolygu a chraffu i'r awdurdod perthnasol ac nad yw buddiant yr aelod yn fuddiant ariannol;

(f) os yw'r busnes sydd i'w ystyried yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol y mae'r aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli heblaw fel cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol ac nad oes gan yr aelod unrhyw fuddiant arall yn y busnes hwnnw ar yr amod na fydd unrhyw ollyngiad yn ymestyn i gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw; neu

(ff) os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod o les i drigolion ardal yr awdurdod perthnasol i'r anallu gael ei godi, ar yr amod bod hysbysiad ysgrifenedig bod y gollyngiad yn cael ei ganiatáu yn cael ei roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn saith diwrnod a hynny mewn unrhyw fodd y gall ei bennu.

Circumstances in which dispensations may be granted

2. The standards committee of a relevant authority may grant dispensations under section 81(4) of the Act where -

(a) no fewer than half of the members of the relevant authority or of a committee of the authority (as the case may be) by which the business is to be considered has an interest which relates to that business;

(b) no fewer than half of the members of a leader and cabinet executive of the relevant authority by which the business is to be considered has an interest which relates to that business and either paragraph (d) or (e) also applies;

(c) in the case of a county or county borough council, the inability of the member to participate would upset the political balance of the relevant authority or of the committee of the authority by which the business is to be considered to such an extent that the outcome would be likely to be affected;

(d) the nature of the member's interest is such that the member's participation in the business to which the interest relates would not damage public confidence in the conduct of the relevant authority's business;

(e) the interest is common to the member and a significant proportion of the general public;

(f) the participation of the member in the business to which the interest relates is justified by the member's particular role or expertise;

(g) the business to which the interest relates is to be considered by an overview and scrutiny committee of the relevant authority and the member's interest is not a pecuniary interest;

(h) the business which is to be considered relates to the finances or property of a voluntary organisation of whose management committee or board the member is a member otherwise than as a representative of the relevant authority and the member has no other interest in that business provided that any dispensation shall not extend to participation in any vote with respect to that business; or

(i) it appears to the committee to be in the interests of the inhabitants of the area of the relevant authority that the disability should be removed provided that written notification of the grant of the dispensation is given to the National Assembly for Wales within seven days in such manner as it may specify.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a).

21 Mehefin 2001

21st June 2001

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p. 38.

(a) 1998 c. 38.

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2001 Rhif 2279 (Cy. 169)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**Rheoliadau Pwyllgorau Safonau
(Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru)
2001**

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2001 No. 2279 (W. 169)

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

**The Standards Committees (Grant
of Dispensations) (Wales)
Regulations 2001**

©[©] Hawlfraint y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£2.00

W/321/07/01

ON

© Crown copyright 2001

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090284-X



9 780110 902845

ATODIAD / ENCLOSURE 3

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2016 No. 85

**Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau
Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau
ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016**

Diwygio Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001

4.—(1) Mae Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1, ym mharagraff (3) yn y lle priodol mewnosoder—

“ystyr “cyd-bwyllgor” (“*joint committee*”) yw pwyllgor a sefydlir gan ddau awdurdod perthnasol neu ragor o dan adran 53(1) o’r Ddeddf;”;

“ystyr “is-bwyllgor adran 54A” (“*section 54A sub-committee*”) yw is-bwyllgor a benodir gan bwyllgor safonau o dan adran 54A(1) o’r Ddeddf;”;

“ystyr “is-bwyllgor cymunedol” (“*community sub-committee*”) yw is-bwyllgor a benodir gan bwyllgor safonau awdurdod lleol o dan adran 56 o’r Ddeddf;”;

“ystyr “pwyllgor safonau” (“*standards committee*”) yw—

- (a) pwyllgor safonau awdurdod perthnasol;
- (b) cyd-bwyllgor;
- (c) is-bwyllgor adran 54A; neu
- (d) is-bwyllgor cymunedol;”.

(3) Yn rheoliad 2—

(a) ar ddiwedd paragraff (f) hepgorer “neu”;

(b) ym mharagraff (ff), yn lle’r geiriau sy’n dilyn “ei godi” rhodder “; neu”;

(c) ar ôl paragraff (ff) mewnosoder—

“(g) os yw’n ymddangos i’r pwyllgor ei bod yn briodol fel arall caniatáu gollyngiad.”

(4) Ar ôl rheoliad 2 mewnosoder—

“Gollyngiadau a ganiateir yn unol â rheoliad 2(g)

3.—(1) Rhaid i ollyngiad a ganiateir gan bwyllgor safonau awdurdod perthnasol o dan adran 81(4) o’r Ddeddf ar y seiliau a nodir yn rheoliad 2(g) ac sy’n parhau i gael effaith, gael ei adolygu gan y pwyllgor safonau unwaith ym mhob cyfnod o 12 mis o’r dyddiad y caniateir y gollyngiad am y tro cyntaf.

(2) Pan fydd yn cynnal adolygiad o dan baragraff (1) rhaid i’r pwyllgor safonau ddyfarnu a ddylai’r gollyngiad barhau i gael effaith.

Gweithdrefn a phwerau pwyllgorau safonau

4.—(1) Caiff pwyllgor safonau awdurdod perthnasol atgyfeirio cais am ollyngiad a wneir gan aelod o'r awdurdod i bwyllgor safonau awdurdod perthnasol arall i'r pwyllgor hwnnw ei ystyried a dyfarnu arno.

(2) Caiff swyddog monitro awdurdod perthnasol y gwneir cais am ollyngiad iddo wneud trefniadau, gyda chydsyniad ysgrifenedig cadeirydd pwyllgor safonau yr awdurdod hwnnw ymlaen llaw, i bwyllgor safonau awdurdod perthnasol arall ei ystyried a dyfarnu arno.

(3) Pan fo ymdrechion rhesymol i gysylltu â chadeirydd pwyllgor safonau yr awdurdod perthnasol wedi bod yn aflwyddiannus, caiff is-gadeirydd y pwyllgor safonau roi cydsyniad o dan baragraff (2).

(4) Pan fo swyddog monitro neu bwyllgor safonau yn gwneud trefniadau i bwyllgor safonau awdurdod perthnasol arall ystyried cais am ollyngiad a dyfarnu arno, rhaid i'r swyddog monitro neu'r pwyllgor safonau sy'n gwneud y trefniadau hynny roi hysbysiad am hynny i'r person sy'n gwneud y cais.

(5) Rhaid i'r hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (4) gynnwys y canlynol—

- (a) datganiad bod y mater wedi ei atgyfeirio i bwyllgor safonau awdurdod perthnasol arall i'r pwyllgor hwnnw ei ystyried a dyfarnu arno;
- (b) enw'r awdurdod perthnasol arall; ac
- (c) y rheswm pam y mae'r cais wedi ei atgyfeirio i bwyllgor safonau yr awdurdod perthnasol arall.

(6) Pan fo'r pwyllgor safonau wedi dyfarnu ar y cais rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig am ei benderfyniad i'r canlynol—

- (a) yr aelod sy'n gwneud cais am y gollyngiad; a
- (b) pwyllgor safonau yr awdurdod perthnasol a atgyfeiriodd y cais.”

Nodyn Briffio i Aelodau

Caniatâd Arbennig

Mae hwn yn nodyn briffio i Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn ynglŷn â 'Chaniatâd Arbennig'. Os oes gan Aelodau unrhyw gwestiynau, dylid cysylltu â'r Swyddog Monitro.

Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn

Ni chaniateir i unrhyw Aelod gymryd rhan mewn mater os oes ganddo ef/hi ddiddordeb sy'n rhagfarnu* yn y mater hwnnw oni bai bod caniatâd arbennig wedi ei roi gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor. Cynhwysir yr wybodaeth hon ym [mharagraff 14 y Cod](#)

Y Sail dros roi caniatâd arbennig

Gellir rhoi caniatâd arbennig ar y sail ganlynol:-

1. Ni fyddai o leiaf hanner yr Aelodau perthnasol (Cyngor/Pwyllgor) yn gallu cymryd rhan yn y cyfarfod oherwydd diddordeb sy'n rhagfarnu;
2. Byddai diffyg cyfranogiad gan Aelodau yn effeithio ar gydbwysedd gwleidyddol;
3. Mae natur y diddordeb yn golygu na fyddai cyfranogiad yn cael effaith andwyol ar hyder y cyhoedd yn y penderfyniad;
4. Mae diddordeb yr Aelod sy'n Ymgeisio'n gyffredin i gyfran sylweddol o'r cyhoedd;
5. Byddai swyddogaeth neu arbenigedd yr Aelod sy'n Ymgeisio'n cyfiawnhau caniatáu iddo/iddi gymryd rhan;
6. Mae'r diddordeb yn un y dylid ei gofrestru ond ddim yn un ariannol a bydd y penderfyniad yn cael ei ystyried gan bwyllgor sgriwtini;
7. Mae'r busnes yn ymwneud ag arian neu eiddo sefydliad gwirfoddol ac mae'r Aelod sy'n Ymgeisio yn aelod o'i fwrdd neu bwyllgor yn ei rinwedd/rhinwedd ei hun, ac nid oes ganddo/ganddi unrhyw ddiddordeb arall [er yn yr achos hwn, ni fyddai unrhyw ganiatâd arbennig yn caniatáu i'r Aelod sy'n Ymgeisio bleidleisio ar y mater];
8. Mae'r Pwyllgor Safonau o'r farn y byddai cyfranogiad yr Aelod sy'n Ymgeisio o fudd i drigolion ardal y Cyngor a bod y Pwyllgor yn hysbysu Gweinidogion Llywodraeth Cymru o fewn 7 niwrnod i roi'r caniatâd arbennig; neu
9. Mae'r Pwyllgor Safonau o'r farn ei bod yn briodol rhoddi caniatâd arbennig, fel ateb ymarferol i anabledd (gwendid) yr Aelod sy'n Ymgeisio a fyddai'n golygu y byddai'n anodd iddynt adael yr ystafell/siambr pan drafodir mater y mae ganddynt ddiddordeb sy'n rhagfarnu ynddo.

Sut mae gwneud cais am ganiatâd arbennig?

Mae'n rhaid i'r Aelod sy'n Ymgeisio wneud cais ysgrifenedig i'r Pwyllgor Safonau ac yn arferol disgwylir iddo/iddi fod yn bresennol yng nghyfarfod Panel y Pwyllgor Safonau fydd yn gwneud y penderfyniad.

Gall Aelod sy'n Ymgeisio wneud cais fel unigolyn, neu, mewn amgylchiadau cyffredin, gellir cyflwyno cais ar y cyd neu dorfol ar gyfer mwy nag un Aelod.

Bydd y Pwyllgor Safonau yn ystyried yr holl geisiadau ar sail y ffeithiau a gyflwynir ym mhob achos; gan gydbwyso'r budd i'r cyhoedd o atal y sawl sydd â diddordebau sy'n rhagfarnu* rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau gyda'r angen i sicrhau cymaint o gyfranogiad ag sy'n bosibl yn y broses ddemocrataidd.

Gwneir penderfyniad i roi caniatâd arbennig yn ôl doethineb y Pwyllgor Safonau. Y Pwyllgor Safonau fydd yn penderfynu ar amodau a hyd unrhyw ganiatâd arbennig.

Os yw'r Pwyllgor Safonau yn cymeradwyo'r cais mae'n rhaid iddo roi'r caniatâd arbennig yn ysgrifenedig. Ni fydd modd i unrhyw Aelod ddibynnu ar ganiatâd arbennig hyd nes y bydd y penderfyniad ysgrifenedig wedi'i gyhoeddi. Os oes angen, ac os yw'n bosib, fe wneir hyn yn ddiymdroid.

Gofynion ar Aelodau pan fyddant yn dibynnu ar ganiatâd arbennig

Unwaith fydd y Pwyllgor Safonau wedi cymeradwyo cais ac wedi rhoi caniatâd arbennig, a hynny'n ysgrifenedig, bydd gan yr Aelod hawl wedyn i gymryd rhan (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau a osodwyd) er gwaethaf ei ddiddordeb/ei diddordeb sy'n rhagfarnu*.

(a) Cyfarfodydd:

Os yw Aelod wedi derbyn caniatâd arbennig a'i fod yn dymuno cymryd rhan mewn cyfarfod i drafod y mater perthnasol hwnnw, mae'n rhaid i'r Aelod:

- (i) ddatgan yn y cyfarfod, pan fydd yr eitem yn cael ei thrafod, ei fod o/hi yn dibynnu ar ganiatâd arbennig; a
- (ii) cyn, neu yn syth ar ôl i'r cyfarfod orffen, mae'n rhaid iddo ef/iddi hi roi hysbysiad ysgrifenedig** i'r Cyngor.
Mae'n rhaid i'r hysbysiad gynnwys:
 - 1. manylion y diddordeb sy'n rhagfarnu* y derbyniwyd y caniatâd arbennig ar ei gyfer;
 - 2. manylion y busnes y mae'r diddordeb sy'n rhagfarnu* yn ymwneud ag ef;
 - 3. manylion y caniatâd arbennig, yn cynnwys y dyddiad y cafodd ei roi, a
 - 4. llofnod yr Aelod.

(b) Sylwadau Ysgrifenedig:

Os yw Aelod wedi derbyn caniatâd arbennig, ac mae'n gwneud sylwadau ysgrifenedig i'r Cyngor, mae'n rhaid i'r Aelod gynnwys gwybodaeth am y caniatâd arbennig mewn unrhyw ohebiaeth ar y pwnc y mae'r caniatâd arbennig yn ymwneud ag ef.

(c) Sylwadau Llafar:

Os yw Aelod wedi derbyn caniatâd arbennig, ac mae'n gwneud sylwadau llafar i'r Cyngor bydd rhaid i'r aelod hwnnw/honno:

- (i) gynnwys manylion y caniatâd arbennig mewn unrhyw sylwadau llafar, a
- (ii) rhoi hysbysiad ysgrifenedig** i'r Cyngor o fewn 14 diwrnod ar ôl gwneud y sylwadau llafar.

Troednodyn/Diffiniadau

- * Diddordeb sy'n Rhagfarnu – Diddordebau personol yw'r rhain y byddai arsyllwr gwrthrychol yn ystyried eu bod mor sylweddol fel eu bod yn debygol o effeithio'n andwyol ar allu Aelod i weithredu er budd y cyhoedd.
- ** hysbysiad ysgrifenedig - mewn cyfarfodydd ffurfiol, gall Aelodau ddefnyddio'r ffurflen safonol ar gyfer gwneud datganiad. Mewn cyfarfodydd anffurfiol mae'n rhaid i Aelodau ddarparu cadarnhad ysgrifenedig i'r swyddog arweiniol a gofyn i'r caniatâd arbennig gael ei gynnwys mewn unrhyw gofnod anffurfiol/nodyn ffeil ar gyfer y cyfarfod.

CYNGOR SIR YNYS MÔN

**CAIS AM GANIATÂD ARBENNIG GAN Y PWYLLGOR SAFONAU GAN AELOD O'R
CYNGOR SIR**

Enw'r Aelod:	
Manylion Cyswllt yr Aelod:	
Ward:	
Manylion y diddordeb sy'n rhagfarnu* y gofynnir am Ganiatâd Arbennig yn ei chylch:	
Y busnes mae'r Aelod yn dymuno cymryd rhan ynddo:	
Y math o Ganiatâd Arbennig y gofynnir amdano (rhowch ✓ fel sy'n briodol a chynhwyswch unrhyw wybodaeth sydd ei hangen)	○ ysgrifennu at swyddogion [a/neu'r Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor] ynglŷn â'r mater; ○ siarad gyda swyddogion y Cyngor ynglŷn â'r mater [ym mhresenoldeb dau berson arall] [nad ydynt yn ymddiriedolwyr neu'n Aelodau o Fwrdd [NODWCH YMA], cyhyd ag y cedwir cofnod o unrhyw drafodaethau; ○ siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith /Pwyllgor/Cyngor ac ateb a gofyn unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r mater; ○ aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth/bleidlais ynglŷn â'r mater; ○ pleidleisio yn y cyfarfodydd hynny; ○ arall
Sail statudol ar gyfer gofyn am Ganiatâd Arbennig (gweler trosodd am restr o'r rhesymau):	
A yw'r diddordeb wedi'i gofrestru yn unol ag Adran 81(1) a (2) Deddf Llywodraeth Leol 2000:	Ydy / Nac Ydy
Dyddiad erbyn pryd y bydd angen y penderfyniad:	
Llofnod:	Dyddiad:

* Diddordebau sy'n Rhagfarnu – diddordebau personol yw'r rhain y byddai arsyllwr gwrthrychol yn ystyried eu bod mor sylweddol fel eu bod yn debygol o effeithio'n andwylol ar allu Aelod i weithredu er budd y cyhoedd.

Amgylchiadau lle gall Pwyllgor Safonau Roddi Caniatâd Arbennig

Mae Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016 yn nodi y caniateir i Bwyllgor Safonau'r Cyngor roi caniatâd arbennig o dan Adran 81(4) Deddf Llywodraeth Leol 2000 o dan yr amgylchiadau canlynol:

- (a) Mae gan o leiaf hanner Aelodau'r Cyngor neu Bwyllgor y Cyngor (fel sy'n briodol) fydd yn ystyried y busnes ddiddordeb sy'n gysylltiedig â'r busnes hwnnw;
- (b) Mae gan o leiaf hanner Aelodau Pwyllgor Gwaith y Cyngor (h.y. Yr Arweinydd a'r Pwyllgor Gwaith) fydd yn ystyried y busnes diddordeb sy'n gysylltiedig â'r busnes hwnnw ac mae paragraff (d) neu (e) yn berthnasol hefyd;
- (c) Byddai anallu Aelodau i gymryd rhan yn effeithio ar gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor, neu unrhyw un o'i bwyllgorau fydd yn ystyried y busnes, i'r fath raddau y byddai'n debygol o effeithio ar y penderfyniad;
- (d) Mae natur diddordeb yr Aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr Aelod i'r busnes y mae'r diddordeb yn ymwneud ag ef yn andwyol i hyder y cyhoedd yn y modd yr ymdrinnir â busnes y Cyngor;
- (e) Mae'r diddordeb yn gyffredin i'r Aelod a chyfran sylweddol o'r cyhoedd;
- (f) Mae cyfranogiad yr Aelod i'r busnes y mae'r diddordeb yn gysylltiedig ag ef yn cael ei gyfiawnhau yn rhinwedd swyddogaeth neu arbenigedd penodol yr Aelod;
- (g) Mae'r diddordeb cofrestradwy'n ymwneud â busnes fydd yn cael ei ystyried gan Bwyllgor Sgriwtini'r Cyngor, ac nid oes gan yr Aelod ddiddordeb ariannol yn y busnes hwnnw;
- (h) Mae'r busnes yn ymwneud ag arian neu eiddo sefydliad gwirfoddol y mae'r Aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli, ond nid fel cynrychiolydd o'r Cyngor, ac nid oes gan yr Aelod unrhyw ddiddordeb arall yn y busnes hwnnw, ar yr amod nad yw'r caniatâd arbennig yn cynnwys cymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw;
- (i) Ymddengys i'r Pwyllgor Safonau fod y diddordeb yn ddiddordeb i drigolion ardal y Cyngor ac y dylid dileu'r anallu, cyhyd â bod hysbysiad ysgrifenedig o rod-di caniatâd arbennig yn cael ei roi i Lywodraeth Cenedlaethol Cymru o fewn 7 niwrnod. Dylai hysbysiad o'r fath roi manylion am yr Aelod sydd wedi derbyn y caniatâd arbennig a rhesymau'r Pwyllgor Safonau dros ddileu'r anallu; neu
- (j) Ymddengys i'r pwyllgor ei bod yn briodol rhoi caniatâd arbennig, fel ateb ymarferol i anabledd (gwendid) yr Aelod a fyddai'n golygu y byddai'n anodd iddynt adael yr ystafell/siambr pan drafodir mater y mae ganddynt ddiddordeb sy'n rhagfarnu ynddo.

CYNGOR SIR YNYS MÔN

PENDERFYNIAD Y PWYLLGOR SAFONAU MEWN PERTHYNAS Â CHAIS AM GANIATÂD ARBENNIG GAN AELOD O'R CYNGOR SIR

Penderfyniad y Pwyllgor Safonau:	
Dyddiad y gwnaethpwyd y penderfyniad gan y Pwyllgor Safonau:	
Enw'r personau y dylid ei hysbysu am benderfyniad y Pwyllgor Safonau:	
Dyddiad y daw'r caniatâd arbennig i ben:	

Yn unol â pharagraff [] Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016 mae'r Pwyllgor Safonau wedi penderfynu rhoi **caniatâd arbennig** i'r Cynghorydd [] mewn perthynas â'r diddordeb hwnnw y cyfeirir ato / y diddordebau hynny y cyfeirir atynt yn nhudalen 1 y Cais, sy'n caniatáu i'r Cynghorydd:

- ysgrifennu at swyddogion [a/neu'r Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor] ynglŷn â'r mater;
- siarad â swyddogion y Cyngor ynglŷn â'r mater [ym mhresenoldeb dau berson arall] [nad ydynt yn Ymddiriedolwyr neu'n Aelodau o Fwrdd [NODWCH YMA], cyhyd ag y cedwir cofnod o unrhyw drafodaethau;
- siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor ac ateb unrhyw gwestiynau ynglŷn mater;
- aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth/bleidlais ynglŷn â mater;
- pleidleisio yn y cyfarfodydd hynny;
- arall

Mae gan y Cynghorydd felly hawl i siarad [a phleidleisio] yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor mewn perthynas â'r mater ac ateb unrhyw gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor [ond mae'n rhaid iddo/iddi adael y cyfarfod cyn y trafodir a phleidleisir ar y materion hynny y mae'r Cynghorydd yn siarad yn eu cylch] NEU [a chaniateir iddynt aros yn yr ystafell yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar y mater ond ni chaniateir iddynt bleidleisio ar y mater].

Cyn i'r Cynghorydd siarad â, neu ysgrifennu at, swyddogion y Cyngor, neu siarad yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor ar y mater, mae'r rhaid i'r Cynghorydd :-

- ddatgan diddordeb yn y mater; a
- cadarnhau bod caniatâd arbennig wedi ei roi er mwyn caniatáu i'r Cynghorydd siarad [a phleidleisio] ar y mater; a
- cwblhau hysbysiad i'r Clerc yn manylu ar y diddordeb a'r caniatâd arbennig.

Drwy awdurdod Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn

Dyddiedig: _____



Cynllun 2017-2022

Cyngor Sir
Ynys Môn



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

www.YnysMon.gov.uk



cyngormon



@cyngormon

CYNNWYS

RHAGAIR:

Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn

3

Y Cynllun

4

Ffeithiau allweddol am Ynys Môn

5

Ffeithiau allweddol am Ynys Môn

7

Amcan 1

8

Amcan 2

13

Amcan 3

17

Aliniad gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

21

Sut allwch chi chwarae eich rhan?

22

Sut fyddwn ni'n cyflawni'r pethau hyn?

23

Sut fyddwn yn sicrhau y bydd y cynllun hwn yn cael ei wireddu?

24

Rhagor o wybodaeth

25

RHAGAIR:

Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn



Mae sicrhau bod gennym Gynllun cadarn ac ystyrlon fel Cyngor Sir yn hanfodol ar gyfer gwireddu ein gweledigaeth a'n prif nodau ac amcanion dros y 5 blynedd nesaf.

Mae'r cynllun hwn yn gosod targed i ni gyrraedd tuag ato ac mae'n uchelgeisiol ond yn realistig. Datblygwyd a ffurfiwyd y Cynllun hwn gan farn pobl leol, ein partneriaid yn ogystal â blaenoriaethau gwleidyddol lleol a chenedlaethol megis yr Agenda Lles.

Bydd ein prif flaenoriaethau ar gyfer y 5 mlynedd nesaf yn cael eu siapio a'u gyrru gan ein prif uchelgais i weithio tuag at Ynys Môn ... "Ile mae unigolion yn byw o fewn teuluoedd gwydn a chymunedau iach, llewyrchus a ffyniannus".

Mewn gwirionedd, fe welwch fod yr unigolyn, y teulu a'r gymuned yn cael

lle amlwg yn ein tri phrif amcan, sef bod pobl yn gwireddu eu potensial; bod pobl fregus yn cael eu diogelu a bod cymunedau a'r amgylchedd yn cael eu gwarchod mewn cyfnod o newid.

Mae gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru a'r DU yn parhau i gynllunio ar gyfer toriadau yn yr arian y byddwn yn ei dderbyn, a bydd raid gwneud mwy o benderfyniadau anodd yn y dyfodol ynglŷn â'r gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig a sut y byddwn yn eu darparu. Byddwn yn parhau i wneud y penderfyniadau hynny mewn ymgynghoriad â phobl leol, a budd gorau Ynys Môn a'i phobl fydd wrth wraidd y penderfyniadau hynny. Rydym yn parhau i chwilio am ffyrdd o wella'n gwasanaethau, gan sicrhau eu bod yn fwy effeithlon ac o'r ansawdd gorau. Mae'r gwelliannau hyn yn cynnwys parhau i foderneiddio'r ffordd yr ydym yn gweithio.

Mae yna lawer o heriau o'n blaenau ond 'rydym yn hyderus, trwy weithio gyda chi, sef pobl a chymunedau Ynys Môn, y byddwn yn gwneud pob ymdrech i wireddu'r cynllun newydd a chyffrous hwn.

Llinos Medi (Arweinydd)

Y Cynllun

Uchelgais allweddol y Cyngor yw y byddwn:

**“yn gweithio tuag at Ynys Môn
fydd yn iach, yn ffynnu ac yn
llewyrchus”.**

Y **thema allweddol** sy’n rhedeg trwy’r cynllun yw ein huchelgais i weithio â phobl Ynys Môn, ein cymunedau a’n partneriaid er mwyn **sicrhau gwasanaethau o safon uchel** a fydd yn gwella ansawdd bywyd i bawb ar yr Ynys.

Mae ymgynghoriadau diweddar â’n cymunedau, aelodau etholedig a staff wedi amlygu'r blaenoriaethau a ganlyn:

- Creu'r amodau fydd yn galluogi pawb i gyflawni eu potensial tymor hir.
- Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus a’u cadw’n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl
- Gweithio mewn partneriaeth gyda’n cymunedau i’w galluogi i ymdopi’n effeithiol â newid a datblygiadau tra’n gwarchod ein hamgylchedd naturiol.

Yn y cyfnod hwn o gynildeb ariannol fe fydd y cynllun hwn yn dylanwadu ar y ffordd byddwn yn llunio ein cyllideb.

Ffeithiau allweddol am Ynys Môn

Mae Ynys Môn ychydig dros 700 o gilometrau sgwâr ac yn cynnwys trefi bach, pentrefi a thir fferm yn bennaf. Mae ei 225km o arfordir yn cynnwys amrywiaeth eang o draethau tywodlyd a childraethau creigiog sy'n denu nifer fawr o dwristiaid, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf.

Mae'r A55 yn cysylltu'r Ynys gyda gweddill Cymru ac yn brif ffordd gyswllt i Borthladd Caergybi.

Mae bron i 70,000 o bobl yn byw yn Ynys Môn. Mae 61% o oed gwaith ac mae 76.5% ohonynt mewn gwaith - mae hwn yn uwch na'r cyfartaledd Cymru gyfan. Mae nifer y boblogaeth sydd o oedran gwaith ac sydd un ai'n rheolwyr, yn gyfarwyddwyr neu'n uwch swyddogion yn uwch na chyfartaledd Cymru ac mae gennym un o'r cyfraddau hunangyflogaeth uchaf yn y wlad - busnesau bach a masnachwyr unigol yn bennaf.



Ffeithiau allweddol am Ynys Môn

Gellir cyrraedd holl drefi a phentrefi Ynys Môn o fewn hanner awr i brif swyddfeydd y Cyngor yn Llangefni.

Mae ein treftadaeth a'n diwylliant Cymreig yn bwysig. Mae dros dri-chwarter ein plant a dros hanner ein hoedolion yn gallu siarad y Gymraeg. Mae diogelu'r iaith Gymraeg yn flaenoriaeth uchel gan y Cyngor.

Mae'r Ynys yn lle gwych i fyw, a'n prif flaenoriaeth dros y 5 mlynedd nesaf fydd darparu gwasanaethau Cyngor effeithlon ac effeithiol er mwyn sicrhau bod hyn yn parhau.

Mae'r Ynys wedi ei rhannu'n 11 o wardiau gyda phob un yn cael ei gwasanaethu gan fwy nag un Cynghorydd Sir. Mae 30 o Gynghorwyr i gyd.

Mae Ynys Môn yn un o'r **lleoedd hapusaf i fyw yng Nghymru**. Mewn Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a gynhaliwyd gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol roedd **Ynys Môn yn gyntaf drwy Gymru gyfan o ran pamor fodlon yw pobl gyda'u bywydau'n gyffredinol**. O ran hapusrwydd roedd Ynys Môn yn ail drwy Gymru. Mae Ynys Môn hefyd yn un o'r lleoedd mwyaf diogel yng Nghymru i fyw.



Amcan allweddol y cynllun 5 mlynedd hwn

Mae'r ddogfen hon yn gosod Nodau ac Amcanion y Cyngor ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Bydd yn bwynt cyfeirio ar gyfer y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel. Bydd hefyd:

- yn gosod fframwaith i'w ddefnyddio er mwyn cynllunio a gweithredu ein blaenoriaethau;
- yn gosod cyfeiriad i'r ffordd y byddwn yn llunio ein gwariant yng nghyd-destun gostyngiad sylweddol mewn cyllid;
- yn cael ei ddefnyddio ar gyfer monitro cynnydd y blaenoriaethau a nodwyd.

Ein NOD fydd gweithio tuag at Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle bydd teuluoedd yn ffynnu.

Byddwn hefyd yn gwneud ein gorau glas i sicrhau bod ein gwaith yn cyd-fynd â nodau a'r egwyddor datblygiad cynaliadwy sydd wedi'i ymgorffori yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Amcan 1

Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir



Pam rydym eisiau gwneud hyn?

Mae galluogi trigolion i gyrraedd eu potensial llawn yn dibynnu ar gyfuniad o ffactorau megis cyfleoedd cyflogaeth, sgiliau a hyfforddiant; argaeledd tai fforddiadwy o ansawdd da a mynediad i amgylchedd naturiol ac adeiledig o safon uchel. Byddwn yn creu'r amodau ar gyfer trigolion er mwyn iddynt fedru **cyflawni eu potensial llawn a gwella ansawdd eu bywydau a'u lles.**



Er bod economi Ynys Môn wedi dirywio dros nifer o flynyddoedd gyda nifer o ardaloedd yn gymdeithasol ac yn economaidd ddifreintiedig, mae'r cyflog wythnosol cyfartalog yn uwch (o 8%) na'r ffigwr cyfatebol ar gyfer Cymru. Mae'r canran o bobl sydd mewn gwaith ar gyfartaledd yn debyg i'r ffigwr cenedlaethol.

Mae'r nifer o bobl oedran gwaith sydd un ai'n rheolwyr, yn gyfarwyddwyr neu'n uwch swyddogion yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ac mae gennym un o'r cyfraddau hunangyflogaeth uchaf yn y wlad - rydym yn arloesol ac yn ddeinamig fel Ynys a hoffem weld hyn yn datblygu ymhellach.

Sut byddwn ni'n cyflawni'r amcan hwn? Swyddi a Chyfleoedd Gwaith

Byddwn yn gwneud pob ymdrech i wella cyfleoedd cyflogaeth, sgiliau a hyfforddiant.



1. Byddwn yn hyrwyddo Ynys Môn er mwyn annog datblygwyr mawr i fuddsoddi yn yr ynys ac yn defnyddio hyn fel catalydd ar gyfer datblygu busnesau a swyddi ar yr Ynys.
2. Gweithio â Chynghorau eraill yng Ngogledd Cymru i ddenu buddsoddiad er mwyn sicrhau bod prosiectau allweddol sy'n cynnig cyfleoedd lleol am gyflogaeth yn mynd yn eu blaenau.
3. Gwneud ein gorau glas i greu amodau sy'n golygu y gall busnesau lleol ddatblygu a chreu swyddi o safon yn Ynys Môn. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod gwariant y Cyngor yn cefnogi busnesau lleol.
4. Defnyddio cyfleoedd sy'n codi o ddatblygiadau newydd i hyrwyddo prentisiaethau a sicrhau bod gan bobl ifanc ac oedolion y sgiliau cywir a'r arbenigedd angenrheidiol ar gyfer y byd gwaith. Byddwn hefyd yn creu cyfleoedd o fewn y Cyngor i ddatblygu ein staff.

Sut byddwn ni'n cyflawni'r amcan hwn?

Addysg a Sgiliau

Byddwn yn parhau i godi safonau addysg a sicrhau bod gan ein pobl ifanc y sgiliau cywir ar gyfer cyflogaeth a hyfforddiant.

1. Parhau â'n rhaglen moderneiddio ysgolion drwy gyhoeddi strategaeth ddiwygiedig fydd yn mynd i'r afael â chynaliadwyedd tymor hir addysg gynradd ac addysg uwchradd ar draws yr Ynys. Bydd hyn yn cynnwys y posibilrwydd o gampysau dysgu 3 – 18 oed mewn lleoliadau penodol.
2. Cwblhau'r gwaith ar Ysgol Santes Dwynwen, Niwbwrch ac ardaloedd Seiriol a Llangefni.
3. Cynyddu'r niferoedd sy'n ymgeisio am swyddi arweinyddiaeth mewn ysgolion cynradd ac uwchradd drwy ddarparu rhaglen fewnol a gynlluniwyd er mwyn adnabod a datblygu arweinwyr ysgolion y dyfodol.
4. Gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau y cyfleoedd gorau mewn addysg a sgiliau ar gyfer ein pobl ifanc.



Sut byddwn ni'n cyflawni'r amcan hwn?

Iechyd a Lles



Byddwn yn creu amodau i unigolion allu gwella eu hiechyd a'u lles.

1. Annog unigolion i wella eu hiechyd a'u lles eu hunain drwy hyrwyddo ffyrdd o fyw yn actif ymysg plant, pobl ifanc ac oedolion.
2. Defnyddio ein hadnoddau, a rhai partneriaid allanol, er mwyn cynyddu nifer y tai fforddiadwy a thai cyngor a dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd.
3. Gweithio gyda phartneriaid allanol er mwyn sicrhau y gall pob rhan o'r Ynys gael mynediad i wasanaeth band-eang dibynadwy a chyflym er mwyn hyrwyddo dulliau hyblyg o weithio a galluogi trigolion i gyflawni eu busnes â'r Cyngor ar-lein.

Amcan 2

Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl.



Pam rydym ni eisiau gwneud hyn?

Mae'r Cyngor yn wynebu sawl her gofal - poblogaeth oedrannus sy'n cynyddu, niferoedd uwch o gleifion â chyflyrau cronig ac achosion cynyddol o ordewdra. Mae costau gofal cymdeithasol yn cynyddu tra bo cyllidebau yn lleihau.

Dros y ddeng mlynedd ar hugain ddiwethaf, mae nifer y bobl dros 65 oed wedi tyfu i tua 17,000 [cynnydd o tua 12%]; mae'r cynnydd cyfatebol ar gyfer pobl dros 85 oed yn 16%.

Mae rhagfynegiadau yn awgrymu y bydd y duedd hon yn parhau dros gyfnod y cynllun ac fe fydd hyn yn cynyddu'r pwysau ar wasanaethau lechyd a Gofal Cymdeithasol.

O ganlyniad, bydd angen i'r Cyngor gydweithio'n agosach â'r Bwrdd Iechyd a'r Trydydd Sector er mwyn hyrwyddo iechyd da drwy gamau ataliol ac ymyrraeth gynnar.

Yn y cyswllt hwn, rhoddir blaenoriaeth i ddatblygu hybiau cymunedol er mwyn darparu gwasanaethau ataliol sy'n ymateb i anghenion gofal a chymorth yn

lleol fydd yn arwain at fwy o annibyniaeth ymysg ein hoedolion.

Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal a'r ceisiadau am dai addas, yn aml i osgoi digartrefedd, hefyd wedi cynyddu dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

O ganlyniad, bydd angen i'r Cyngor roi blaenoriaeth i gefnogi teuluoedd er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd a bod gwasanaethau cymorth ataliol yn amserol ac yn llwyddiannus mewn perthynas â chadw plant gartref.

Bydd angen hefyd i'r Cyngor sicrhau bod mathau cywir o dai yn y llefydd cywir i fodloni anghenion lleol a bod cymorth addas ar gael ar gyfer y teuluoedd hynny sy'n ei chael hi'n anodd ymateb i newidiadau Diwygio Lles.

Sut byddwn yn cyflawni'r amcan hwn?

Cefnogaeth ar gyfer oedolion hŷn a bregus

Byddwn yn cynnig cefnogaeth i alluogi unigolion i barhau i fod yn annibynnol

1. Cytuno ar gynlluniau i ddarparu tai gofal ychwanegol yng nghanol, gogledd a de-ddwyrain yr Ynys.
2. Datblygu modelau hyblyg o lety â chymorth ar gyfer unigolion sydd ag anableddau dysgu ac anghenion iechyd meddwl er mwyn hwyluso byw'n annibynnol yn ein cymunedau.
3. Sicrhau bod y Cyngor, y Bwrdd Iechyd a'r Trydydd Sector yn cydweithio i ddarparu cefnogaeth 24/7 er mwyn galluogi unigolion i aros yn eu cartrefi neu i ddychwelyd i'w cartrefi yn dilyn cyfnod yn yr Ysbyty.



4. Sicrhau bod hybiau cymunedol ar gael ar draws yr Ynys er mwyn cefnogi oedolion hŷn i allu parhau i fod yn annibynnol, lleihau unigedd, parhau i fod yn actif a gwella lles personol.
5. Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer oedolion sy'n dioddef o ddementia.

Sut byddwn yn cyflawni'r amcan hwn?

Cefnogaeth ar gyfer teuluoedd a phlant

Byddwn yn datblygu gwasanaethau ataliol a chymorth i deuluoedd.

1. Darparu gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliol cynnar er mwyn sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn cael eu cefnogi er mwyn lleihau profiadau niweidiol plentynod.
2. Sicrhau bod gwasanaethau'r Cyngor sydd wedi'u dylunio i fynd i'r afael â thlodi wedi'u cydlynu'n effeithiol.



3. Sicrhau bod darpariaeth o dai addas ar gael er mwyn atal digartrefedd.

4. Mynd i'r afael ag effeithiau Diwygio Lles drwy sicrhau bod cefnogaeth addas ar gael ar gyfer teuluoedd sy'n wynebu'r risgiau mwyaf.

5. Hyrwyddo gwasanaeth Teulu Môn ar gyfer holl deuluoedd yr Ynys.



Amcan 3

Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol.



Pam rydym ni eisiau gwneud hyn?



Mae amgylcheddau naturiol ac adeiledig yr Ynys yn hanfodol i'r sector twristiaeth. Mae angen diogelu ac ehangu'r nodweddion unigryw hyn a gwneud y mwyaf o'u gwerth fel adnoddau cymdeithasol-economaidd. Yn y cyswllt hwn, bydd angen cydbwyso effeithiau datblygiadau mawr arfaethedig ar yr amgylchedd lleol a'u lleihau a'u lliniaru.

Bydd datblygiadau'r Cyngor ei hun yn cael eu dylanwadu gan ystyriaethau ariannol a chynaliadwyedd mwy hirdymor.

Mae'r sefyllfa ariannol anodd bresennol yn debygol o barhau a bydd yn gyrru'r achos dros newid.

O ganlyniad, bydd angen i'r Cyngor ystyried a fydd yn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau ar eu ffurf gyfredol. Bydd cyfraniad ein rhanddeiliaid a'n parodrwydd i wrando yn hanfodol yn y cyd-destun hwn.

Rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu a datblygu'r defnydd o'r iaith Gymraeg a'i chyfraniad i hunaniaeth ddiwylliannol a threftadaeth yr Ynys.

Sut byddwn yn cyflawni'r amcan hwn?

Datblygu a Hyrwyddo

Byddwn yn datblygu'r Ynys mewn modd sensitif wrth ddiogelu ei hasedau naturiol.

1. Datblygu a hyrwyddo'r Ynys fel cyrchfan boblogaidd i ymwelwyr a chodi ymwybyddiaeth o'r hyn sydd ganddi i'w gynnig yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.



2. Gwneud yn siŵr bod penderfyniadau Cynllunio yn cefnogi nodau ac amcanion y Cynllun hwn.



3. Cynyddu cyfraddau ailgylchu i 70% a mynd â llai o wastraff i safleoedd tirlenwi.

4. Lleihau risg llifogydd mewn ardaloedd sy'n peri pryder.

5. Dod yn fwy effeithlon o ran ein defnydd o ynni a lleihau ein hallyriadau carbon drwy ganolbwyntio ar Ganolfannau Hamdden, Ysgolion a goleuadau stryd.



Sut byddwn yn cyflawni'r amcan hwn?

Trawsnewid

Byddwn yn gweithio gydag eraill er mwyn sicrhau bod newidiadau arloesol yn gallu digwydd.

1. Gweithio gyda chymunedau er mwyn cadw asedau pwysig ar agor.
2. Cynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y Cyngor a hyrwyddo'r defnydd ohoni mewn cymunedau a sefydliadau lleol.
3. Newid y modd y byddwn yn darparu gwasanaethau drwy weithio gydag eraill i adnabod modelau eraill ar gyfer eu darparu.
4. Defnyddio TG er mwyn trawsnewid y ffordd y darperir gwasanaethau'r Cyngor er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gost- effeithiol ac yn effeithlon.



Aliniad gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae'r gweithredoedd a restrir uchod yn tynnu sylw at y ffaith y bydd penderfyniadau a wneir heddiw yn gwella bywydau a chyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

- Bydd moderneiddio ysgolion yn arwain at well safonau ac amgylcheddau dysgu cynaliadwy a fydd yn elwa plant ein dyfodol.
- Bydd ymyrraeth gynnar a gwasanaethau ataliol yn galluogi oedolion bregus i fod yn fwy annibynnol a bydd profiadau plentyndod niweidiol yn cael eu lleihau.
- Bydd sicrhau bod mwy o dai cynaliadwy ar gael mewn lleoliadau penodol yn creu'r amodau priodol i deuluoedd allu llwyddo.
- Gall annog ein dinasyddion i ddefnyddio'r amgylchedd naturiol arwain at well iechyd.

Bydd y camau gweithredu'n cael eu cyflawni gan ddefnyddio'r 5 ffordd o weithio (gyferbyn). Bydd hyn o gymorth i ni weithio gyda'n gilydd yn well er mwyn osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol a mynd i'r afael â rhai o'r heriau tymor hir yr ydym yn eu hwynebu.



Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd



Ystyried sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion



Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion



Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant



Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu

Sut allwch chi chwarae eich rhan?

Bydd angen i'r Cyngor gydweithio â dinasyddion, cymunedau a phartneriaid er mwyn gwireddu'r nodau a'r amcanion sydd wedi'u hamlinellu yn y cynllun hwn. Bydd hyn yn creu'r bartneriaeth angenrheidiol er mwyn:

- mynd i'r afael â'r pwysau sydd ar wasanaethau yn ystod y cyfnod hwn o gyni ariannol;
- annog cymunedau i gymryd perchnogaeth o asedau penodol;
- cytuno ar fodelau amgen er mwyn gallu darparu gwasanaethau penodol.

Mae'r enghreifftiau canlynol yn nodi sut gall dinasyddion, cymunedau a phartneriaid ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol:-

- Sicrhau bod plant yn mynd i'r ysgol a darparu'r gefnogaeth angenrheidiol er mwyn iddynt allu gwneud y gorau o'r cyfleoedd a gynigir iddynt tra byddant yn yr ysgol.
- Gwirfoddoli i fod yn rhan o'r newid yn enwedig mewn perthynas â helpu pobl hŷn yn eich cymuned i fyw'n annibynnol.
- Annog y defnydd o'r Gymraeg yn eich cymuned a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, diwylliannol a threftadaeth.
- Annog eich ffrindiau a'ch teulu i ailgylchu ac i ddefnyddio ynni mewn ffordd fwy effeithlon.
- Manteisio ar y cyfle i gysylltu â'r Cyngor a'i wasanaethau mewn gwahanol ffyrdd.
- Defnyddio'r adnoddau naturiol ar yr Ynys ar gyfer gweithgareddau er mwyn gwella llesiant personol.
- Hyrwyddo cyfleoedd i gynnig prentisiaethau, lleoliadau gwaith a chyfleoedd gwirfoddoli.
- Annog busnesau lleol i gydweithio er mwyn ymgeisio am gontractau mwy gan y Cyngor.

Sut byddwn ni'n cyflawni'r pethau hyn?

Mae agwedd '**Un Cyngor**' tuag at ddarparu gwasanaethau wedi'i ddatblygu. Byddwn yn moderneiddio ac yn newid modelau darparu gwasanaeth er mwyn sicrhau bod gwasanaethau o safon uchel ar gael mewn modd cost effeithiol. Darperir y gwasanaethau hyn yn newis iaith y dinesydd.

Bydd gwaith staff y Cyngor yn parhau i gael ei lywio gan gyfres o werthoedd sy'n amlinellu'r disgwyliadau a'r ymddygiadau ar bob lefel ar draws y sefydliad.

- **Proffesiynol ac wedi'i redeg yn dda**
- **Arloesol, Uchelgeisiol ac Eangfrydig**
- **Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned**
- **Gwerthfawrogi a Datblygu ein Pobl**
- **Wedi ymrwymo i Bartneriaeth**
- **Cyflawni**



Sut byddwn yn sicrhau y bydd y cynllun hwn yn cael ei wireddu?

Bydd y Cyngor yn:

- sefydlu trefniadau cadarn er mwyn mynd i'r afael â'r heriau ariannol, sicrhau bod meysydd blaenoriaeth yn cael eu gwarchod tra'n cydnabod y bydd trawsnewid gwasanaethau a dulliau cyflwyno arloesol yn hanfodol er mwyn sicrhau hyfywedd y Cyngor yn y tymor hir;
- defnyddio ein fframwaith rheoli perfformiad integredig gan gysylltu blaenoriaethau â'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol;
- casglu data a defnyddio gwybodaeth er mwyn monitro perfformiad - cyhoeddir adroddiadau perfformiad ar ein gwefan;
- cynnwys a pharhau i ymgysylltu gyda thrigolion Ynys Môn ynghylch y ffordd y gwneir penderfyniadau



Rhagor o wybodaeth

I ddarganfod mwy am unrhyw beth yn y ddogfen hon neu i wneud unrhyw sylwadau cysylltwch os gwelwch yn dda gyda:

Trawsnewid

Cyngor Sir Ynys Môn

Swyddfeydd y Cyngor

Llangefni

Ynys Môn

LL77 7TW

Ffôn - 01248 752111

E-bost - GethinMorgan@ynysmon.gov.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg, ar dâp, mewn braille ac ar y wefan y Cyngor: www.ynysmon.gov.uk/cynllunycyngor

Gellwch gael mwy o wybodaeth hefyd fel a ganlyn:

Gellir gweld polisïau, cynlluniau a strategaethau a gyhoeddir gan y Cyngor: www.ynysmon.gov.uk/cynllunycyngor

Mae Adroddiadau Archwilio ac Arolygu a gynhyrchwyd gan Reoleiddwyr y Cyngor ar gael ar eu gwefannau unigol fel a ganlyn:

- Swyddfa Archwilio Cymru: www.wao.gov.uk
- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru: www.cssiw.org.uk
- Estyn: www.estyn.gov.uk

Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd, neu i gael dogfen nad yw wedi ei rhestru uchod, cysylltwch â'r Cyngor os gwelwch yn dda trwy'r manylion cyswllt a amlinellir ar frig y dudalen hon.



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

www.YnysMon.gov.uk

 [cyngormon](https://www.facebook.com/cyngormon)

 [@cyngormon](https://twitter.com/cyngormon)

Cyngor Sir
Ynys Môn

Dogfen Cyflawni Blynyddol 2018 - 2019



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

www.YnysMon.gov.uk



@cyngormon



cyngormon



@cyngormon

CYNNWYS

CYFLWYNIAD :	
Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn	3
Amcan 1	5
Amcan 2	9
Amcan 3	12
Rhagor o wybodaeth	15

CYFLWYNIAD

Mae'n ffrainc gennyf gyflwyno ein dogfen cyflawni blynyddol sy'n canolbwyntio ar y gwaith yr ydym yn ei wneud i wireddu'r dyheadau uchelgeisiol a bennwyd yng Nghynllun y Cyngor am y cyfnod 2017-2022.

Mae'r Cynllun yn gosod targed inni weithio tuag ato ac mae'n uchelgeisiol ond yn realistig. Datblygwyd a ffurfiwyd ein cynllun yn seiliedig ar farn pobl leol, ein partneriaid yn ogystal â blaenoriaethau gwleidyddol lleol a chenedlaethol megis yr agenda lles. Mae'r blaenoriaethau hyn yn sylfaen ac yn ganolbwynt i Gynllun y Cyngor sy'n gyrru ein disgwyliadau a'n gwaith strategol a dydd i ddydd hyd at 2022.

O ganlyniad i'r adborth a gafwyd mae'r Cyngor wedi mabwysiadu ei brif nod, sef ein bod "yn gweithio tuag at Ynys Môn fydd yn iach, yn ffynnu ac yn llewyrchus" gyda'r thema allweddol sydd yn rhedeg drwy'n holl waith o ddydd i ddydd yw bod angen inni sicrhau gwasanaethau o safon uchel a fydd yn gwella ansawdd bywyd i bawb ar yr Ynys.

Er mwyn cyflawni'r nod hwn, mae'r Cyngor wedi penderfynu ar amcanion penodol dros y blynyddoedd nesaf, sef:

- Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir
 - Swyddi a Chyfleoedd Gwaith
 - Addysg a Sgiliau
 - Iechyd a Lles
- Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol a phosib
 - Cefnogaeth ar gyfer oedolion hyn a bregus
 - Cefnogaeth ar gyfer teuluoedd a phlant
- Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol a newid datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol
 - Datblygu a Hyrwyddo
 - Trawsnewid

CYFLWYNIAD

Hon yw'r flwyddyn gyntaf inni gynhyrchu Dogfen Cyflawni Blynyddol fel rhan o'r Cyngor presennol. Mae'r ddogfen (a elwir hefyd yn Gynllun Gwella) yn dangos sut y byddwn yn cyflawni ein blaenoriaethau allweddol dros y 12 mis nesaf ac yn amlygu ein cymhelliant i sicrhau gwelliant parhaus yn ein gwasanaethau fel y disgwylir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n bwysig nodi fod y ddogfen cyflawni blynyddol hon yn amlinellu'r gwaith y byddwn yn ei eneud yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Mae'r gwaith hyn a'r adnoddau cysylltiedig wedi cael eu hasesu a caent eu cyllido a'i gwireddu drwy -

- Adnoddau a geir yng nghyllideb refeniw y Cyngor neu drwy
- Arian sydd wedi ei gydnabod fel rhan o raglen cyfalaf y Cyngor

Mae unrhyw waith fydd angen ei gyllido ymhellach na 2018/19 wedi ei gysidro fel rhan o'r gynllun ariannol tymor canolig y Cyngor neu raglen cyfalaf y Cyngor.

Byddwn hefyd yn gwneud y gwelliannau gan gadw mewn cof egwyddorion cynaliadwyedd a chydaddoldeb bob amser a hynny mewn amser o gynni ariannol eithriadol.

Mae gwranddo ar yr hyn yr ydych chi wedi ei ddweud fel trigolion a busnesau lleol Ynys Môn wedi bod yn rhan hanfodol o'r broses hon. Bydd ymgysylltu yn y fath fodd yn parhau i fod yn rhan allweddol o'n ffordd o weithredu.

Edrychwn ymlaen at ei gyflawni gyda'ch cydweithrediad chi.



Llinos Medi
Arweinydd y Cyngor

AMCAN 1

Cyflwyno ar gyfer 2018 - 2019

Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir

Beth fyddwn ni'n ei gyflawni yn 2018 - 2019

Swyddi a Chyfleoedd Gwaith

Byddwn yn:

1. Fel rhan o Fid Twf Gogledd Cymru byddwn yn cyd-weithio ag eraill i sicrhau'r buddsoddiad gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Chymru i ddatganoli pwerau i Ogledd Cymru er budd creu 5000 o swyddi, cefnogi'r economi lleol a gwella'r cysylltiadau trafnidiaeth a chyfathrebu

2. Cefnogi'r economi lleol drwy adeiladu cyfanswm o 15 unedau busnes newydd yn

- Llangefni a

- Chaergybi

gan hefyd ymestyn Canolfan Fusnes Môn ym Mryn Cefni i bwrpas ehangu'r gofod ar gyfer busnesau lleol.

3. Cwblhau'r ffordd gyswllt yn Llangefni i alluogi gwell cyswllt rhwng yr A55 a Choleg Menai. Bydd hyn yn creu'r cyfle i weld datblygiadau sgiliau a hyfforddi pellach gan hefyd agor tir diwydiannol newydd.

4. Cwblhau'r gwaith o adfywio Neuadd y Farchnad yng Nghaergybi i bwrpas cartrefu busnesau lleol ag ail-leoli'r llyfrgell bresennol.



Beth fyddwn ni'n ei gyflawni yn 2018 - 2019

Addysg a Sgiliau

Byddwn yn:

1. Drafftio, ymgynghori ac yn mabwysiadu strategaeth moderneiddio ysgolion newydd. Bydd yn amlygu'r pwysigrwydd o ddatblygu amgylcheddau Dysgu newydd i bwrpas gwella'r ddarpariaeth a chodi safonau a chyrhaeddiad ein plant dros y blynyddoedd i ddod. Bydd ffocws cynnar ar ddatblygu'r model addysgol yn nalgylch Amlwch.
2. Gweithio ar gwblhau'r Ysgol newydd yn Niwbwrch – Ysgol Santes Dwynwen, fel ei fod yn adnodd cymunedol cynaliadwy i'r dyfodol.
3. Byddwn yn gwneud penderfyniadau ar ddyfodol ysgolion cynradd Llangefni a'r cyffiniau, gan sicrhau ein bod yn cyd-weithio gyda Llywodraeth Cymru i'w gwireddu a chychwyn ar y gwaith o adeiladu.
4. Penderfynu ar ddyfodol addysg yn ardal Seiriol drwy gysidro dyfodol ysgolion Llandegfan, Biwmares a Llangoed.
5. Parhau i anwytho Penaethiaid newydd y Sir (13) drwy gynnig cynhaliaeth a chefnogaeth reolaidd gan hefyd ddatblygu ein Penaethiaid dros dro (3). Byddwn yn adnabod darpar benaethiaid i'r dyfodol a'u cefnogi hwy drwy gynnig profiadau a chyfleoedd datblygol.
6. Lansio rhaglen newydd **Denu Talent Môn** eleni fydd yn gyfle i 9 i 10 o bobl 16 oed neu drosodd i ymgymryd â hyd at 12 wythnos o brofiad o weithio gyda'r Cyngor gyda chyflog dros gyfnod yr haf. Bydd hyn yn gyfle gwerthfawr i gael blas ar waith awdurdod lleol modern drwy ymgymryd â phrosiectau a thasgau penodol.

Beth fyddwn ni'n ei gyflawni yn 2018 - 2019

IECHYD A LLES

Byddwn yn:

1. Gweithio i gynyddu cyfranogiad ein trigolion (gyda phwyslais ar ein pobl ifanc) mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden.
2. Cyd-weithio ag eraill ac yn defnyddio arian cyfalaf er mwyn sefydlu cae 3G cyntaf yr Ynys ym Mhlas Arthur, Llangefni. Byddwn hefyd yn buddsoddi mewn offer ffitrwydd newydd yng Nghanolfan Hamdden Caergybi.
3. Gweithio ag eraill i ddod a 75 o dai gwag yn ôl i ddefnydd a chynyddu'r niferoedd o dai fforddiadwy sydd yn cael ei adeiladu.



AMCAN 2

Cyflwyno ar gyfer 2018 - 2019

Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl.

Beth fyddwn ni'n ei gyflawni yn 2018 - 2019

Cefnogaeth ar gyfer oedolion hŷn a bregus

Byddwn yn:

1. Cwblhau'r datblygiad o'r tŷ gofal ychwanegol yn Llangefni - Hafan Cefni, fydd yn galluogi 63 person i fyw'n annibynnol mewn amgylchedd cefnogol

2. Cychwyn y gwaith paratoi o gynllunio ar gyfer tŷ gofal ychwanegol yn ardal Seiriol – Biwmares

3. Cyd-weithio gyda'r Bwrdd Iechyd yng Ngharreglwyd, Caergybi i ddarparu gofal dementia gwell gyda'r nod o atal trosglwyddiadau dianghenraid i leoliadau gofal amgen ac anaddas e.e. ysbytai neu ofal preswyl all-sirol

4. Cwblhau'r gwaith mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd o ail-dendro'r cytundeb gofal cartref i leoliadau llai fel bod y ddarpariaeth yn well.

4. Cynyddu'r niferoedd o hybiau cymunedol ar draws yr Ynys mewn ardaloedd tebyg i -

- Amlwch
- Llangefni
- Cemaes
- Porthaethwy
- Niwbwrch a
- Benllech

fydd yn helpu'r agenda ataliol ac yn cadw unigolion yn actif ac yn brysur o fewn eu cymunedau.

5. Adolygu a newid trefniadau gofal dydd sydd yn cael ei ddarparu gan y Cyngor a gan ddarparwyr eraill fel bod mwy o ffocws yn cael ei roi ar gyflawni dyheadau personol.

6. Cwblhau'r datblygiad yn Llawr y Dref, Llangefni fydd yn rhoi'r cyfle i'r rhai hynny sydd gydag anawsterau dysgu i symud i fflatiau dros dro er mwyn cael eu hasesu, cefnogi a'u paratoi i fyw'n annibynnol.

Beth fyddwn ni'n ei gyflawni yn 2018 - 2019

Cefnogaeth ar gyfer teuluoedd a phlant

Byddwn yn:

1. Edrych ar ffyrdd o gryfhau ein gwasanaethau ataliol a llesiant i blant, phobl ifanc a'r rhai bregus o fewn ein cymdeithas. Ein nod fydd cynyddu gwytnwch unigolion, teuluoedd a chymunedau.

2. Cyd-weithio ag eraill i godi oddeutu 60 o dai cymdeithasol newydd ar yr Ynys eleni yn yr ardaloedd a ganlyn –

- Llanddeusant
- Cemaes
- Caergybi
- Dwyran
- Penysarn
- Niwbwrch

3. Parhau gyda'r gwaith o hyrwyddo Teulu Môn. Bydd hyn yn sicrhau bod gan holl deuluoedd yr Ynys fan penodol i gael mynediad at wybodaeth, cyngor a chefnogaeth yn ymwneud â phlant, a theuluoedd sydd â phlant, rhwng 0-25 oed

4. Parhau i ddiogelu plant a phobl ifanc yr Ynys

5. Treialu lleoliadau ehangach i rai o'n plant mewn gofal drwy un ai gynnig mwy o wasanaethau, cynyddu'r lleoliadau gofal maeth neu ddarparu gofal mewn ffordd wahanol (amgen)



AMCAN 3

Cyflwyno ar gyfer 2018 - 2019

Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol.

Beth fyddwn ni'n ei gyflawni yn 2018 - 2019

Datblygu a Hyrwyddo

Byddwn yn:

1. Gwireddu'n cynllun rheoli cyrchfan drwy ganolbwyntio'n bennaf ar farchnata'r Ynys mewn cydweithrediad ag ymgyrch blynyddol Croeso Cymru - 'Year of the Sea'
2. Croesawu 52 o longau mordeithio a dros 32,000 o ymwelwyr i Gaergybi gan ysgogi'r ymwelwyr i ymweld â chyrchfannau twristiaeth lleol i dderbyn croeso cynhenid Cymreig
3. Parhau gyda'n bwriad a'n cyflawniad o sicrhau bod dros 70% o'n gwastraff teuluol yn cael ei ailgylchu gan hefyd atal gwastraff aiff i bwrpas tirlenwi
4. Buddsoddi £250,000 mewn nifer o brosiectau effeithlonrwydd ynni ar draws stad y Cyngor gan ganolbwyntio ar ein hysgolion / canolfannau hamdden.
5. Ogystal yn cwblhau gwaith o ymchwilio i'r meysydd hynny o'r stad ac yn paratoi cynllun ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod lle bydd buddsoddiad pellach yn medru creu mwy o arbedion effeithlonrwydd ynni.
6. Cydlynu'r rhaglen Ynys Ynni i liniaru effeithiau, a gwella'r buddion a geir yn sgil prosiectau ynni mawr.
7. Sicrhau bod y Cyngor Sir yn dylanwadu ar brosesau DCO a Chynllunio Pŵer Niwclear Horizon a'r Grid Cenedlaethol.
8. Canolbwyntio ar ddatblygu cynlluniau atal llifogydd ym, Mhentraeth, Biwmares a Bodffordd eleni, a gweithio gyda phartneriaid (Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru) i ymchwilio i broblemau yn Llangefni a Dwyran. Byddwn yn ymchwilio i opsiynau ar gyfer ceisiadau am gyllid i gynlluniau ym Mhorthaethwy, Llanfairpwll, Caergybi a Fali yn 2019/20 (i bwrpas eu gwarchod i'r dyfodol o effeithiau amgylcheddol amrywiol)

Beth fyddwn ni'n ei gyflawni yn 2018 - 2019

Trawsnewid

Byddwn yn:

1. Parhau i gyd-weithio gyda'n cymunedau i gynllunio lle gyda'r bwriad o'i harfogi i gymryd mwy o gyfrifoldeb a pherchnogaeth dros eu cymunedau eu hunain
2. Cyd-weithio gyda Chyngor Tref Biwmares i allanoli rheolaeth o'r Carchar a'r Llys i bwrpas cynnal yr atyniad twristiaeth hanesyddol yn y dref i'r dyfodol.
3. Peilota estyniad o'n cynnig Cyswllt Môn allan yn y gymuned mewn llyfrgelloedd i bwrpas hyrwyddo mynediad i wybodaeth, cyngor a chefnogaeth yn fwy eang
4. Ail-lunio'n gwefan corfforaethol i'w wneud yn haws i drigolion yr Ynys fedru derbyn / chwilio a chyfleu gwybodaeth angenrheidiol mewn ffordd ystyrlon newydd.
5. Ysgogi ac yn cefnogi'r gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd a Hamdden i bwrpas cynyddu'r defnydd o Gymraeg ymysg ein gweithlu drwy gyd-weithio'n ddwys ac yn rhagweithiol ar ymyraethau llwyddiannus.



Rhagor o wybodaeth

I gael mwy o wybodaeth am unrhyw beth yn y ddogfen hon neu i wneud unrhyw sylwadau, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda:

Gwasanaeth Adnoddau Dynol & Thrawsnewid

Cyngor Sir Ynys Môn

Swyddfeydd y Cyngor

Llangefni Ynys Môn

LL77 7TW

Ffôn - 01248 752111

Ebost :-

CarysEdwards@ynysmon.gov.uk

GethinMorgan@ynysmon.gov.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg, ar dân, mewn braille ac ar y wefan y Cyngor: www.ynysmon.gov.uk/cynllunycyngor

Gellwch gael mwy o wybodaeth hefyd fel a ganlyn:

Gellir gweld polisïau, cynlluniau a strategaethau a gyhoeddir gan y Cyngor www.ynysmon.gov.uk

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol ar gael ar wefan y Cyngor trwy glicio ar y ddolen a ganlyn: www.ynysmon.gov.uk

Mae Adroddiadau Archwilio ac Arolygu a gynhyrchwyd gan Reoleiddwyr y Cyngor ar gael ar eu gwefannau unigol fel a ganlyn:

- Swyddfa Archwilio Cymru: www.wao.gov.uk
- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru: www.cssiw.org.uk
- Estyn: www.estyn.gov.uk



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

www.YnysMon.gov.uk



@cyngormon



cyngormon



@cyngormon

CAIS AM GANIATÂD ARBENNIG GAN Y PWYLLGOR SAFONAU GAN AELOD O'R CYNGOR SIR

Enw'r Aelod:	Cynghorydd Llinos Medi Huws
Manylion Cyswllt yr Aelod:	LlinosMediHuws@ynysmon.gov.uk 01248 470702
Ward:	Talybolion
Manylion y diddordeb sy'n rhagfarnu* y gofynnir am Ganiatâd Arbennig yn ei chylch:	Mae gennyf gyfnither 'rwyf yn agos iawn ati ac mae ei phlentyn yn mynychu Ysgol Llanfechell, sydd yn un o'r ysgolion sy'n rhan o'r ymgysylltiad / ymgynghoriad Addysg yn ardal Amlwch. Yn ogystal â hyn, mae gennyf ferch, sydd ar hyn o bryd ym Mlwyddyn 8 yn Ysgol Uwchradd Bodedern, fydd yn debygol o gael ei heffeithio gan unrhyw benderfyniad gaiff ei wneud ynghylch Addysg Ôl-16 yn y Sir. Fel Arweinydd, credaf y dylwn fod yn rhan o'r trafodaethau a phleidleisio ar y materion hyn. Mae Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn flaenoriaeth gan Gyngor Sir Ynys Môn a chredaf y dylwn fod yn arwain arno, er gwaethaf y diddordeb personol a nodir uchod. Yn wir, tybiaf y gallai fod yn anfanteisiol i'r Cyngor petawn i ddim yn gallu cymryd rhan lawn Arweinydd yn y mater gan y bydd yn dioddef heb Arweinydd mewn un o'i brif amcanion. Y gorau i boblogaeth Cyngor Sir Ynys Môn a'r addysg orau ar gyfer ein plant ydi fy mlaenoriaeth i, pa bynnag ffordd y mae hwnnw'n cael ei ddarparu ac yn lle. Mae gennyf feddwl agored a byddaf yn parhau i gael meddwl agored ynghylch canlyniad yr ymgysylltiad a'r ymgynghoriad statudol, maes o law. Fe fydd fy marn derfynol wedi ei chyrraedd ar ôl cloriannu'r holl dystiolaeth. Byddaf yn ystyried beth sydd orau ar gyfer disgyblion, gan roi pwyslais arbennig ar pa fodel fydd yn eu galluogi i gyrraedd eu llawn botensial a chynnig y cyfleoedd gorau iddynt mewn bywyd.
Y busnes mae'r Aelod yn dymuno cymryd rhan ynddo:	Materion Addysg yn cynnwys: - Ysgolion Ardal Amlwch; a - Darpariaeth Addysg Ôl-16 yn y Sir
Y math o Ganiatâd Arbennig y gofynnir amdano (rhowch ✓ fel sy'n	○ ysgrifennu at swyddogion [a/aeu'r Pwyllgor

briodol a chynhwyswch unrhyw wybodaeth sydd ei hangen)	Gwaith/Pwyllgor/Cyngor] ynglŷn â'r mater; ○ siarad gyda swyddogion y Cyngor ynglŷn â'r mater [ym mhresenoldeb dau berson arall] [nad ydynt yn ymddiriedolwyr neu'n Aelodau o Fwrdd [NODWCH YMA], cyhyd ag y cedwir cofnod o unrhyw drafodaethau; ○ siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith /Pwyllgor/Cyngor ac ateb a gofyn unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r mater; ○ aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth/bleidlais ynglŷn â'r mater; ○ pleidleisio yn y cyfarfodydd hynny; ○ arall	
Sail statudol ar gyfer gofyn am Ganiatâd Arbennig (gweler trosodd am restr o'r rhesymau):	(d) Mae natur diddordeb yr Aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr Aelod i'r busnes y mae'r diddordeb yn ymwneud ag ef yn andwyol i hyder y cyhoedd yn y modd yr ymdrinnir â busnes y Cyngor; (f) Mae cyfranogiad yr Aelod i'r busnes y mae'r diddordeb yn gysylltiedig ag ef yn cael ei gyfiawnhau yn rhinwedd swyddogaeth neu arbenigedd penodol yr Aelod; (i) Ymddengys i'r Pwyllgor Safonau fod y diddordeb yn ddiddordeb i drigolion ardal y Cyngor ac y dylid dileu'r anallu, cyhyd â bod hysbysiad ysgrifenedig o rod-di caniatâd arbennig yn cael ei roi i Lywodraeth Cenedlaethol Cymru o fewn 7 niwrnod. Dylai hysbysiad o'r fath roi manylion am yr Aelod sydd wedi derbyn y caniatâd arbennig a rhesymau'r Pwyllgor Safonau dros ddileu'r anallu	
A yw'r diddordeb wedi'i gofrestru yn unol ag Adran 81(1) a (2) Deddf Llywodraeth Leol 2000:	Ydy / Nac Ydy	
Dyddiad erbyn pryd y bydd angen y penderfyniad:	Cyn gynted â phosib	
Llofnod:		Dyddiad:

* Diddordebau sy'n Rhagfarnu – diddordebau personol yw'r rhain y byddai arsyllwr gwrthrychol yn ystyried eu bod mor sylweddol fel eu bod yn debygol o effeithio'n andwyol ar allu Aelod i weithredu er budd y cyhoedd.

Amgylchiadau lle gall Pwyllgor Safonau Roddi Caniatâd Arbennig

Mae Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016 yn nodi y caniateir i Bwyllgor Safonau'r Cyngor roi caniatâd arbennig o dan Adran 81(4) Deddf Llywodraeth Leol 2000 o dan yr amgylchiadau canlynol:

- (a) Mae gan o leiaf hanner Aelodau'r Cyngor neu Bwyllgor y Cyngor (fel sy'n briodol) fydd yn ystyried y busnes ddiddordeb sy'n gysylltiedig â'r busnes hwnnw;
- (b) Mae gan o leiaf hanner Aelodau Pwyllgor Gwaith y Cyngor (h.y. Yr Arweinydd a'r Pwyllgor Gwaith) fydd yn ystyried y busnes diddordeb sy'n gysylltiedig â'r busnes hwnnw ac mae paragraff (d) neu (e) yn berthnasol hefyd;
- (c) Byddai anallu Aelodau i gymryd rhan yn effeithio ar gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor, neu unrhyw un o'i bwyllgorau fydd yn ystyried y busnes, i'r fath raddau y byddai'n debygol o effeithio ar y penderfyniad;
- (d) Mae natur diddordeb yr Aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr Aelod i'r busnes y mae'r diddordeb yn ymwneud ag ef yn andwyol i hyder y cyhoedd yn y modd yr ymdrinnir â busnes y Cyngor;
- (e) Mae'r diddordeb yn gyffredin i'r Aelod a chyfran sylweddol o'r cyhoedd;
- (f) Mae cyfranogiad yr Aelod i'r busnes y mae'r diddordeb yn gysylltiedig ag ef yn cael ei gyfiawnhau yn rhinwedd swyddogaeth neu arbenigedd penodol yr Aelod;
- (g) Mae'r diddordeb cofrestradwy'n ymwneud â busnes fydd yn cael ei ystyried gan Bwyllgor Sgriwtini'r Cyngor, ac nid oes gan yr Aelod ddiddordeb ariannol yn y busnes hwnnw;
- (h) Mae'r busnes yn ymwneud ag arian neu eiddo sefydliad gwirfoddol y mae'r Aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli, ond nid fel cynrychiolydd o'r Cyngor, ac nid oes gan yr Aelod unrhyw ddiddordeb arall yn y busnes hwnnw, ar yr amod nad yw'r caniatâd arbennig yn cynnwys cymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw;
- (i) Ymddengys i'r Pwyllgor Safonau fod y diddordeb yn ddiddordeb i drigolion ardal y Cyngor ac y dylid dileu'r anallu, cyhyd â bod hysbysiad ysgrifenedig o rod-di caniatâd arbennig yn cael ei roi i Lywodraeth Cenedlaethol Cymru o fewn 7 niwrnod. Dylai hysbysiad o'r fath roi manylion am yr Aelod sydd wedi derbyn y caniatâd arbennig a rhesymau'r Pwyllgor Safonau dros ddileu'r anallu; neu
- (j) Ymddengys i'r pwyllgor ei bod yn briodol rhoi caniatâd arbennig, fel ateb ymarferol i anabledd (gwendid) yr Aelod a fyddai'n golygu y byddai'n anodd iddynt adael yr ystafell/siambr pan drafodir mater y mae ganddynt ddiddordeb sy'n rhagfarnu ynddo.

CYNGOR SIR YNYS MÔN

PENDERFYNIAD Y PWYLLGOR SAFONAU MEWN PERTHYNAS Â CHAIS AM GANIATÂD ARBENNIG GAN AELOD O'R CYNGOR SIR

Penderfyniad y Pwyllgor Safonau:	
Dyddiad y gwnaethpwyd y penderfyniad gan y Pwyllgor Safonau:	
Enw'r personau y dylid ei hysbysu am benderfyniad y Pwyllgor Safonau:	
Dyddiad y daw'r caniatâd arbennig i ben:	

Yn unol â pharagraff [] Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016 mae'r Pwyllgor Safonau wedi penderfynu rhoi **caniatâd arbennig** i'r Cynghorydd [] mewn perthynas â'r diddordeb hwnnw y cyfeirir ato / y diddordebau hynny y cyfeirir atynt yn nhudalen 1 y Cais, sy'n caniatáu i'r Cynghorydd:

- ysgrifennu at swyddogion [a/neu'r Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor] ynglŷn â'r mater;
- siarad â swyddogion y Cyngor ynglŷn â'r mater [ym mhresenoldeb dau berson arall] [nad ydynt yn Ymddiriedolwyr neu'n Aelodau o Fwrdd [NODWCH YMA], cyhyd ag y cedwir cofnod o unrhyw drafodaethau;
- siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor ac ateb unrhyw gwestiynau ynglŷn mater;
- aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth/bleidlais ynglŷn â mater;
- pleidleisio yn y cyfarfodydd hynny;
- arall

Mae gan y Cynghorydd felly hawl i siarad [a phleidleisio] yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor mewn perthynas â'r mater ac ateb unrhyw gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor [ond mae'n rhaid iddo/iddi adael y cyfarfod cyn y trafodir a phleidleisio ar y materion hynny y mae'r Cynghorydd yn siarad yn eu cylch] NEU [a chaniateir iddynt aros yn yr ystafell yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar y mater ond ni chaniateir iddynt bleidleisio ar y mater].

Cyn i'r Cynghorydd siarad â, neu ysgrifennu at, swyddogion y Cyngor, neu siarad yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor ar y mater, mae'r rhaid i'r Cynghorydd :-

- ddatgan diddordeb yn y mater; a
- cadarnhau bod caniatâd arbennig wedi ei roi er mwyn caniatáu i'r Cynghorydd siarad [a phleidleisio] ar y mater; a
- cwblhau hysbysiad i'r Clerc yn manylu ar y diddordeb a'r caniatâd arbennig.

Drwy awdurdod Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn

Dyddiedig: _____

YSTYRIAETHAU CANIATÂD ARBENNIG

Canllawiau ar gyfer y Pwyllgor Safonau wrth ystyried ceisiadau gan Gynghorwyr am ganiatâd arbennig:

1. Darllen:
 - Ystyriwch yr Adroddiad a baratowyd gan / ar ran y Swyddog Monitro.
 - Ystyriwch yr atodiadau i'r Adroddiad, yn arbennig y Ffurflen Gais a gwblhawyd gan y Cynghorydd, er mwyn casglu'r holl ffeithiau.
2. Ceisiadau Lluosog:
 - Ymdriniwch â phob cais yn unigol ac ar sail ei ffeithiau ei hun.
 - Ystyriwch y weithdrefn a ganlyn yn y Gwrandawriad:
 - o Casglu gwybodaeth gefndir / cyffredinol (os oes angen);
 - o Gwrando ar gais Cynghorydd A / gofyn cwestiynau os yw ef/hi yn bresennol / gofyn i'r Clerc;
 - o Ymneilltuo i ystyried cais Cynghorydd A;
 - o Ailgychwyn – gellir cyhoeddi'r penderfyniad mewn perthynas â chais Cynghorydd A, neu gellir dewis gohirio cyhoeddi'r penderfyniad hyd nes y bydd pob cais wedi'i ystyried;
 - o Ailadrodd, yn dibynnu ar nifer y ceisiadau i'w hystyried.
3. Diddordeb Personol / Diddordeb Personol sy'n Rhagfarnu:
 - Ar gyfer pob cais, penderfynwch –
 - o A oes DIDDORDEB PERSONOL?
 - Ystyriwch y Côt Ymddygiad (wedi ei gynnwys fel atodiad i'r Adroddiad)
 - – beth yw diddordeb personol?
 - o A yw'r diddordeb personol yn ddiddordeb SY'N RHAGFARNU?
 - Unwaith eto, ystyriwch y Côt Ymddygiad (wedi ei gynnwys fel atodiad i'r Adroddiad) – a yw'r diddordeb personol yn un sy'n rhagfarnu hefyd?
 - Os nad oes diddordeb personol, neu os nad yw'r diddordeb personol yn un sy'n rhagfarnu, nid oes angen ystyried y cais am ganiatâd arbennig gan fod modd i'r Cynghorydd gymryd rhan lawn yn y busnes.
4. Sail ar gyfer Caniatâd Arbennig:
 - Os oes diddordeb personol sy'n rhagfarnu, ystyriwch ar ba SAIL y gellir rhoi caniatâd arbennig. Rhestrir y seiliau ar gefn y Ffurflen Gais.
 - o A yw'r Ymgeisydd wedi eu nodi'n gywir ar y Ffurflen Gais?
 - o A yw'r Ymgeisydd wedi cynnwys pob Caniatâd Arbennig sydd eu hangen ar y Ffurflen h.y. ar gyfer pleidleisio / siarad / ysgrifennu ayb?
5. Cyfyngiadau ar y Caniatâd Arbennig
 - Wrth benderfynu rhoi Caniatâd Arbennig neu beidio, ystyriwch (os bydd y Caniatâd Arbennig yn cael ei ganiatáu) a oes angen unrhyw gyfyngiadau. Materion megis caniatáu i'r Aelod siarad ond nid i bleidleisio, neu, a roddir y caniatâd arbennig am un cyfarfod yn unig yntau am weddill cyfnod y Cyngor.
6. Ffurflen Penderfyniad
 - Wrth roi'r caniatâd arbennig, bydd angen i'r Panel gwblhau'r Ffurflen Penderfyniad sy'n manylu ar (a) benderfyniad y Pwyllgor Safonau; (b) dyddiad gwneud y penderfyniad; (c) pwy sydd angen cael gwybod am y penderfyniad; (d) dyddiad y daw'r caniatâd arbennig i ben; (e) ar ba sail y rhoddir y caniatâd arbennig; a (f) beth mae'r caniatâd arbennig yn caniatáu i'r Cynghorydd ei wneud (h.y. siarad, pleidleisio ayb).

PANEL CANIATÂD ARBENNIG Y PWYLLGOR SAFONAU**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2019 (2.30 pm)****PRESENNOL:** Aelodau Annibynnol

Mr Michael Wilson (Cadeirydd)
Ms Denise Harris Edwards
Mr John Robert Jones

WRTH LAW: Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro
Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) (MY)
Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM)
Swyddog Pwyllgor (SC)

HEFYD YN**BRESENNOL:** Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Arweinydd y Cyngor)

YMDDIHEURIAD Dim
AU:

1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

2. CAIS AM GANIATÂD ARBENNIG

Cyflwynwyd cais gan y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Arweinydd y Cyngor), yn gofyn i'r Pwyllgor Safonau ystyried rhyddhau caniatadau arbennig mewn perthynas â diddordebau a oedd yn rhagfarnu ynghylch yr isod:-

- Y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn nalgylch Amlwch;
- Darpariaeth Addysg Ôl-16 yn y Sir.

Dywedodd y Swyddog Monitro y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar ddiwedd mis Mawrth 2019 gyda golwg ar gychwyn y broses o ymgynghoriad statudol cyhoeddus ffurfiol ar foderneiddio ysgolion yn ardal Amlwch. Mae ysgol gynradd Llanfechell, ble mae nith y Cynghorydd Huws yn ddisgybl, yn un o'r ysgolion a fydd dan ystyriaeth. Bydd unrhyw benderfyniad a wneir ynghylch dyfodol ysgol gynradd Llanfechell yn cael effaith ar y plentyn gan olygu bod y diddordeb personol hefyd yn un sy'n rhagfarnu.

Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at y Côd Ymddygiad i Aelodau ac eglurodd bod perthynas agos y Cynghorydd Huws gyda'r plentyn a chyda mam y plentyn, yn creu diddordeb personol yng nghyd-destun y prosiect ac o dan y Côd. Byddai hynny ynddo'i hun yn golygu bod angen i'r Arweinydd ddatgan ei diddordeb personol. Fodd bynnag, oherwydd y berthynas agos, a'r posibilrwydd y câi'r penderfyniad effaith sylweddol ar y plentyn, mae'r diddordeb hefyd yn un sy'n rhagfarnu sy'n golygu na fyddai modd i'r ymgeisydd gymryd rhan heb gael

caniatâd arbennig gan y Pwyllgor Safonau.

Dywedodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad fod y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion wedi cael ei mabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Hydref, 2018. Mae'r Strategaeth yn nodi cyfeiriad yr Awdurdod mewn perthynas â'r broses o foderneiddio ysgolion dros y degawd nesaf. Mae'r tri band isod wedi cael eu sefydlu ar gyfer Rhaglen Ysgolion 21^{ain} Ganrif Cymru:-

Band A – prosiectau sydd wedi cael eu cwblhau neu sydd bron â'u cwblhau;
Band B – prosiectau sydd yn mynd rhagddynt neu rai a fydd yn cychwyn yn fuan;
Band C – prosiectau ar gyfer y tymor hwy a fydd yn cael eu cyflawni yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Dywedodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad fod Rhaglen Ysgolion 21^{ain} Ganrif Cymru yn golygu moderneiddio ysgolion drwy sicrhau bod modelau dysgu newydd yn cael eu sefydlu a fydd o fudd i blant y Sir rŵan ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r cynllun tymor hir yn un o gonglfeini Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf y mae'r Cyngor yn cyflawni yn ei herbyn. Nodwyd mai'r Cynghorydd Huws yw llefarydd y Cyngor ar y Ddeddf a'i bod yn cynrychioli'r Cyngor mewn trafodaethau gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Ardal Amlwch

O ran y broses ymgysylltu i drawsnewid ysgolion Ynys Môn, cynhaliwyd trafodaethau anffurfiol yn ddiweddar gydag aelodau'r cyhoedd, rhieni, athrawon ac ati i asesu teimladau'r cyhoedd o fewn y cymunedau yn ardal Amlwch; sy'n cynnwys Ysgol Llanfechell. Nodwyd y bydd y cam nesaf o'r broses yn cynnwys cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i'w ystyried, ac yna i'r Pwyllgor Gwaith i'w gymeradwyo gyda chyfnod ymgynghori statudol ffurfiol o 6 wythnos wedyn i ystyried yr opsiynau posibl. Wedyn, bydd y Pwyllgor Sgriwtini yn penderfynu ar yr opsiynau y mae'n eu ffafrio ac yn cyflwyno ei argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith i'w penderfynu arnynt yn derfynol. Yna, bydd Achos Busnes Amlinellol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini ar gyfer eu sylwadau, ac yna i'r Pwyllgor Gwaith a Llywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.

Eglurodd y Cynghorydd Huws ei bod yn gofyn am ganiatâd arbennig oherwydd bod ganddi berthynas agos iawn gyda'i chyfyrrder a bod merch ei chyfyrrder yn mynychu Ysgol Llanfechell. Dywedodd y gallai eu perthynas fod yn un sy'n rhagfarnu yng nghyd-destun y cyfnod presennol o'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion oherwydd bod ansicrwydd ynghylch dyfodol addysg yn ardal Amlwch. Dywedodd ymhellach ei bod yn amhosibl ffurfio barn ar hyn o bryd ynghylch beth fydd pobl leol yn ei deimlo am y prosiect moderneiddio ysgolion yn y dyfodol. Dywedodd y Cynghorydd Huws ei bod eisoes yn datgan diddordeb mewn perthynas ag ysgol Llanfechell oherwydd mai hi yw'r Cynghorydd sy'n cynrychioli'r Awdurdod ar Fwrdd Llywodraethu'r ysgol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Huws at fanifesto Plaid Cymru, a luniodd yn 2017, a dyfynnodd yr isod fel rhan o'i gweledigaeth ar gyfer y dyfodol a'r hyn y mae'n dymuno ei weld - *“Rwyf am weld pob plentyn ar Ynys Môn yn cyflawni ei*

botensial". Nodwyd bod Maniffesto'r Arweinydd wedi cael ei fabwysiadu fel y gyrrwr ar gyfer Cynllun y Cyngor. Y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yw conglfaen y cynllun hwnnw.

Y Ddarpariaeth Addysg Ôl-16 yn Ynys Môn

Dywedodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad bod y drefn ar gyfer addysg ôl-16 yn debyg iawn i'r broses a amlinellwyd ar gyfer ardal Amlwch. Mae'r Cyngor eisoes wedi ymgysylltu gyda thrigolion ar draws yr Ynys. Bydd y broses ymgynghori statudol yn cychwyn yn ystod yr Hydref ac yn parhau am 6 wythnos cyn symud ymlaen i weithredu ar unrhyw benderfyniad a wneir yn y man. O ran y canlyniadau posibl, gallai unrhyw un o'r pum ysgol uwchradd ar yr Ynys gael eu heffeithio. Nodwyd bod y canlyniadau posibl ar hyn o bryd yn amrywiol ac yn gymhleth a bydd angen ystyried goblygiadau'r penderfyniadau hyn ar ddisgyblion ysgol uwchradd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Huws at y model o Faniifesto Plaid Cymru: *"ein bod yn parhau i roi i'n plant y cyfleoedd gorau posibl, sef nodau cyraeddadwy"*. Dywedodd yr Arweinydd fod posibilrwydd mai ei merch hi fydd un o'r rhai cyntaf i gael eu cynnwys yn y ddarpariaeth addysg ôl-16 pan fydd unrhyw fodel newydd wedi cael ei gwblhau. Tanlinellodd bwysigrwydd cydweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod ein pobl ifanc yn datblygu sgiliau gwaith hanfodol a'u bod yn cael y cyfleusterau addysg gorau.

Holodd y Cadeirydd yr Arweinydd a gofynnodd ym mha fodd y mae ei diddordeb yn un sy'n rhagfarnu? Mewn ymateb, dywedodd y Cynghorydd Huws nad oes ganddi ddiddordeb sy'n rhagfarnu ar hyn o bryd ond ei bod yn pryderu y gallai cwestiynau gael eu gofyn y tu allan i'r Cyngor ynghylch unrhyw benderfyniadau a wna yn y dyfodol efallai. Dywedodd y gallai ei diddordeb gael ei ddehongli fel un sy'n rhagfarnu, oherwydd y gallai ei merch fod yn rhan o'r model newydd ar gyfer y 6ed dosbarth pan gaiff ei gwblhau.

Ymneilltuodd Aelodau'r Panel i sesiwn breifat i drafod y mater. Wedi'r drafodaeth, cyhoeddodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Safonau wedi **PENDERFYNU rhoi caniatadau arbennig i'r Cynghorydd Llinos Medi Huws mewn perthynas â'r diddordebau hynny y cyfeirir atynt yn y Cais, sy'n caniatáu i'r Cynghorydd:-**

- ysgrifennu at swyddogion [a'r Pwyllgor Gwaith / Pwyllgor / Cyngor] ynglŷn â'r mater;
- siarad â swyddogion y Cyngor ynglŷn â'r mater cyhyd ag y cedwir cofnod o unrhyw drafodaethau;
- siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith / Pwyllgor / Cyngor ac ateb unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r mater;
- aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth a/neu bleidlais ynglŷn â'r mater;
- pleidleisio yn y cyfarfodydd hynny; a
- cymryd rhan mewn unrhyw gyfarfodydd allanol yn ei chapasiti fel aelod etholedig.

Rhoddir y caniatadau arbennig am y rhesymau isod:-

1. Mae natur diddordeb yr Aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr Aelod i'r busnes y mae'r diddordeb yn ymwneud ag ef yn andwyol i hyder y cyhoedd yn y modd yr ymdrinnir â busnes y Cyngor;

[Roedd y Panel yn fodlon bod yr ymgeisydd â chymhelliant i weithio er budd y cyhoedd ac yn benodol er budd gorau'r plant a fydd yn cael eu heffeithio gan y penderfyniadau hyn yn y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir.]

2. Mae cyfranogiad yr Aelod i'r busnes y mae'r diddordeb yn gysylltiedig ag ef yn cael ei gyfiawnhau yn rhinwedd swyddogaeth neu arbenigedd penodol yr Aelod;

[Roedd y Panel yn fodlon, oherwydd rôl yr ymgeisydd fel Arweinydd y Cyngor ac arwyddocâd y prosiect hwn i'r sawl a effeithir ac fel rhan o flaenoriaethau'r Cyngor, y dylai'r prosiect gael ei arwain, a'i weld fel un sy'n cael ei arwain, gan Arweinydd y Cyngor.]

3. Ymddengys i'r Pwyllgor Safonau fod y diddordeb yn ddiddordeb i drigolion ardal y Cyngor ac y dylid dileu'r anallu, cyhyd â bod hysbysiad ysgrifenedig o roddi caniatâd arbennig yn cael ei roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn 7 niwrnod. Dylai hysbysiad o'r fath roi manylion am yr Aelod sydd wedi derbyn y caniatâd arbennig a rhesymau'r Pwyllgor Safonau dros ddileu'r anallu.

[Am y rhesymau a ddisgrifir yn 1 a 2 uchod, roedd y Pwyllgor Safonau'n fodlon bod yr un ffeithiau hefyd yn cyfiawnhau rhyddhau caniatâd arbennig am y trydydd rheswm hwn.]

Gweithredu:

- Y Swyddog Monitro i ysgrifennu at y Cynghorydd Huws yn cadarnhau bod y Panel wedi rhoi caniatâd arbennig iddi ysgrifennu, siarad a phleidleisio ar yr holl faterion sy'n ymwneud â'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn nalgylch Amlwch. Rhaid i'r Cynghorydd Huws ddatgan diddordeb personol a diddordeb sy'n rhagfarnu pan yn mynychu'r cyfarfodydd uchod.
- Y Swyddog Monitro i hysbysu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ysgrifenedig am y caniatadau arbennig a roddwyd i'r Cynghorydd Huws o fewn 7 niwrnod i ryddhau'r caniatadau hynny.
- Y Swyddog Monitro i hysbysu Cynulliad Cenedlaethol Cymru y gwnaed i ffwrdd â'r elfen anallu a rhoi'r rheswm pam fod y Pwyllgor Safonau wedi penderfynu cael gwared â'r elfen honno.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.55 pm

MICHAEL WILSON
CADEIRYDD

DRAFT